# Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2020 WG41371 ISBN digidol 978 1 80082 214 6

Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

- Cwmni LinguaNi Cyf

## Cynnwys


| | Rhif tudalen |
|---|---|
| Rhestr Cynnwys | 2 |
| Panel o Arbenigwyr | 4 |
| Ymgynghori Anffurfiol | 4 |
| Prif argymhellion yr adroddiad | 5 |
| Categoreiddio Ysgolion yng Nghymru (Tablau) | 7 |
| Sector Cynradd | 7 |
| Sector uwchradd | 9 |
| Materion Allweddol yr ystyriwyd wrth ddod i gasgliadau ar gategoreiddio ysgolion | 13 |
| Defnyddio data PLASC i gategoreiddio ysgolion | 18 |
| Yr angen i ddiwygio'r diffiniadau presennol | 20 |
| Addysg a chynllunio ieithyddol yng Nghymru | 21 |
| Demograffeg Gymraeg | 22 |
| Datblygiad Addysg Gymraeg | 22 |
| Addysg Drochi yn y Gymraeg | 23 |
| Cynllunio Addysg Gymraeg | 24 |
| Addysg Ddwyieithog | 25 |
| Cynllunio Cyfundrefn Addysg Ddwyieithog | 25 |
| Cyd-destun y presennol | 26 |
| Y Cwricwlwm Newydd | 27 |
| Pam fod angen ail ddiffinio ar hyn o bryd? | 28 |
| Y sail gyfreithiol ar gyfer Addysg Gymraeg | 29 |
| Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg(2007) | 29 |
| Cryfderau a gwendidau'r diffiniadau presennol | 31 |
| Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) | 33 |
| Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg | 36 |
| Y Diffiniadau Drafft | 36 |
| Y gwaith paratoadol cyn llunio'r categorïau newydd | 37 |
| Nifer y categorïau | 38 |

| | |
|---|---|
| Y derminoleg a ddefnyddir | 38 |
| Categorïau a Diffiniadau Drafft mewn manylder | 39 |
| Sector Cynradd | 39 |
| Sector Uwchradd | 43 |
| Diffiniadau Drafft ar ffurf tablau | 46 |
| Atodiad 1:  Argymhellion Gweithredol | 62 |

## Panel o Arbenigwyr

Yn unol ag amodau'r cytundeb hwn, sefydlwyd panel o arbenigwyr o fewn y maes addysg a chynllunio ieithyddol i gynnig cyngor ac arweiniad wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Aelodau'r panel o arbenigwyr oedd:

Rhiannon Lloyd
Yr Athro Colin Baker
Geraint Roberts
Gethin Thomas

## Cefndir a phrofiad aelodau'r panel ymgynghori

Bu Rhiannon Lloyd yn Bennaeth ysgol uwchradd, yn Arolygydd ei Mawrhydi ac yn Ymgynghorydd y Gymraeg mewn awdurdod lleol. Bu Geraint Roberts yn Bennaeth ysgol uwchradd a Gethin Thomas yn Bennaeth ar ysgolion cynradd. Bu Gethin Thomas hefyd yn Gadeirydd CYDAG Cynradd. Gweithiodd y ddau hyn hefyd fel swyddogion addysg mewn awdurdod lleol. Mae Yr Athro Colin Baker yn awdur toreithiog ac yn awdurdod rhyngwladol cydnabyddedig ar ddwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog.

Ymgynghorwyd yn anffurfiol gyda nifer o awdurdodau lleol, cyrff addysgol a chyrff statudol ac anstatudol a chymdeithasau yn ogystal ag unigolion sydd yn weithredol ym maes addysg. Diolch iddynt oll am eu cymorth parod.

## Ymgynghori anffurfiol ar y categorïau drafft

Fel rhan o'r broses o lunio'r categorïau newydd drafft, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru a Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Cafwyd trafodaethau buddiol iawn gydag awdurdodau lleol Mynwy, Caerdydd, Dinbych, Môn, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro a Chastell-nedd Port Talbot ynghyd â swyddog o Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Derbyniwyd awgrymiadau a sylwadau buddiol iawn ac fe gymerwyd y sylwadau hyn i gyd i ystyriaeth wrth lunio'r diffiniadau newydd drafft a nodir yn y dogfen hon.

Nodir yn yr adran isod nifer o'r materion a gymerwyd i ystyriaeth wedi'r broses o ymgynghori anffurfiol ac wrth feddwl am fframwaith mwy pwrpasol ar gyfer diffinio a chategoreiddio ysgolion. Ceir hefyd ar ddiwedd yr adroddiad, mewn atodiad, nifer o argymhellion, y credai'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, y dylid eu hystyried wrth gyflwyno trefn newydd o gategoreiddio ysgolion. Er nad yw'r materion hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses benodol o gategoreiddio ysgolion, maent yn ymwneud â sicrhau'r amodau priodol a fyddai'n arwain at lwyddiant gweithredol y newidiadau arfaethedig hyn.

**Prif argymhellion yr adroddiad hwn a sylwadau perthnasol**

1. Er mwyn gosod cyfundrefn gref a datblygol yn ei lle ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd cynyddol yng Nghymru, ac er mwyn cynnig rhagor o eglurder i rieni ynghylch y ddarpariaeth ieithyddol bosibl, argymhellir y dylid trefnu ysgolion Cymru o fewn tri chategori sy'n nodweddu eu darpariaeth a'u huchelgais o ran dwyieithrwydd y disgyblion. Argymhellir hefyd y dylid defnyddio rhifau fel penawdau ar gyfer y categorïau hyn, sef Categori 1, 2 a 3, gan sicrhau fod paragraff esboniadol yn cyd-fynd â'r dull hwn o adnabod y gwahanol fathau o ysgolion. Rhydd hyn gyfle i esbonio i rieni beth yw hyd a lled y ddarpariaeth a beth y gallent ddisgwyl i'w plant ei gyflawni'n ieithyddol.

2. Er mai tri chategori a argymhellir ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd, nid yr un meini prawf sy'n diffinio natur eu darpariaeth.

3. Yn y cynradd, argymhellir categoreïo'r *ddarpariaeth ieithyddol a gynigir* ac nid yr ysgol fel sefydliad cyfannol, felly gallai ysgol gynradd fod yn ysgol Categori 1 a 2 neu 2 a 3 yn ôl y ddarpariaeth a gynigir. Yn y sector uwchradd, argymhellir mai ysgolion fel sefydliadau cyfan sy'n cael eu categoreiddio er efallai y bydd rhaid cael cynlluniau datblygol penodol ar gyfer yr ysgolion uwchradd lle ceir ffrwd Gymraeg ar hyn o bryd.

4. Yn y sector cynradd argymhellir sefydlu categori newydd o ysgol nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai'r categori newydd hwn yn adeiladu ar y ddarpariaeth Saesneg bresennol gan roi cyfleoedd newydd i blant gaffael mwy ar y Gymraeg drwy dderbyn arlwy ieithyddol sy'n cydbwyso'r Saesneg a'r Gymraeg.

5. Gan mai un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, argymhellir fod ysgolion yn cael cyfle i ddilyn cyfnod trosiannol wrth iddynt symud o un categori i'r llall. Rhydd hyn gyfle i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig o amser.

6. Argymhellir yn yr adroddiad fod y newidiadau cyfundrefnol a ddaw yn sgil y broses o gategoreiddio ysgolion yn adlewyrchu'r hyn a nodir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) pob awdurdod lleol. Argymhellir felly fod pob ysgol yn cyflwyno cynllun datblygu'r Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r CSGA lleol i'w gytuno gan yr awdurdod lleol. Argymhellir hefyd mai'r awdurdod lleol hefyd sy'n pennu categori pob ysgol wrth gyflwyno'r drefn newydd o gategoreiddio. Wrth i ysgolion gynllunio i symud i fod yn ysgolion trawsnewidiol, bydd yn rhaid ystyried pryd y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y newid arfaethedig o ran categori'r ysgol. Efallai, er mwyn bod yn dryloyw a theg dylid ystyried gwneud hynny ar ddechrau'r cyfnod o newid yn hytrach na thua diwedd y cyfnod.

7. Gyda'r drefn newydd o gategoreiddio, argymhellir yn gryf mai un o'r egwyddorion creiddiol ddylai fod nad yw ysgolion yn medru cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol.

8. Mae Cymraeg 2050 yn cynnig targedau heriol o ran cynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Yng ngoleuni'r

targedau hyn argymhellir fod y drefn hon o ddiffinio addysg Gymraeg a’r ddarpariaeth ieithyddol yng Nghymru yn cael ei hadolygu’n gadarn ar ôl cyfnod o ddeg mlynedd o’i gweithredu.

9. Yn gysylltiedig â’r diffiniadau, ac yn cerdded law yn llaw â nhw, mae’r datblygiadau newydd o ran y Cwricwlwm Newydd yng Nghymru ynghyd â’r cysyniad o fedru asesu cynnydd ieithyddol disgyblion gan ddefnyddio un continwwm ieithyddol i wneud hynny. Bydd disgwyl bod yr elfennau hyn yn cyd-blethu er mwyn ategu’r gwaith a wnaed i gynnig trefn newydd o gategoreiddio ysgolion.

10. Wrth drafod y cynigion a geir yn y ddogfen hon gyda nifer o ran-ddeiliaid, cododd materion cysylltiedig eraill sy’n cyd-redeg â diwygio’r drefn o gategoreiddio ac y byddid yn eu hystyried yn faterion sydd angen sylw os yw’r drefn newydd i weithio’n effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am athrawon hyfforddedig, am gyllid priodol i gynnal cynlluniau peilot ac i sicrhau adnoddau newydd a thechnoleg a fyddai’n ategu’r dysgu. Yr elfennau eraill a ddaeth i’r brig o ran sylwadau oedd yr angen i sicrhau gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ymysg athrawon ynghyd â gwell diffiniad o union natur ac egwyddorion addysg drochi yng Nghymru.

**Categoreiddio Ysgolion yng Nghymru**

Nodir isod, ar ddechrau'r adroddiad, ac ar ffurf tabl, y prif argymhellion o ran creu dull newydd o gategoreiddio ysgolion yng Nghymru:

| **Addysg Gynradd (Diffiniadau Drafft)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori 1**<br><br>Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Saesneg<br>(O fewn y rhychwant o 80%-90% Saesneg a 10% i 20% Cymraeg) | | **Categori 2**<br><br>Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Cymraeg/Saesneg<br>(50%Saesneg/<br>50% Cymraeg) | | **Categori 3**<br><br>Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Cymraeg<br>(100% Cymraeg hyd at 7 oed ac yna<br>20% Saesneg<br>80% Cymraeg<br>o 8-11 oed) |
| | **Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol/ Ffrwd/ Dosbarth Trawsnewidiol**<br>Bydd ysgol yn y categori hwn am ddim mwy nag 8 mlynedd wrth i'r ysgol weithredu | | **Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol/Ffrwd /Dosbarth Trawsnewidiol**<br>Bydd ysgol yn y categori hwn am ddim mwy nag 8 mlynedd wrth i'r ysgol weithredu cynllun i | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cynllun i drosglwyddo i Gategori 2 (neu 3) | | drosglwyddo i Gategori 3 | |
| • Bydd disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf yn Saesneg.<br><br>• Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ac ar draws rhai o'r meysydd dysgu a phrofiad eraill.<br><br>• Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed. | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Bydd y cynllun trawsnewid yn amlinellu sut y bydd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n gynyddol fel cyfrwng yr addysgu a'r dysgu o fewn yr ysgol.<br><br>• Bydd disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgolion hyn yn ymuno â grwpiau lle defnyddir rhai dulliau addysg drochi i ddysgu'r Gymraeg. | • Bydd y disgyblion yn cael eu dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhoddir amser cyfartal i ddysgu a datblygu llythrennedd yn y ddwy iaith.<br><br>• Caiff y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Gymraeg eu profi yn y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Saesneg eu profi yn y Saesneg. | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Bydd y cynllun trawsnewid yn amlinellu sut y bydd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel prif gyfrwng y dysgu gan ymdebygu i'r ddarpariaeth a geir mewn ysgolion Categori 3.<br><br>• Cyflwynir y Gymraeg yn unig yn ystod blynyddoedd cynnar disgybl, a hynny o ddechrau'r cyfnod o drawsnewid. | • Hyd at 7/8 oed dysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg un ai trwy ddulliau addysg drochi neu ddysgu fel mamiaith (100%).<br><br>• Rhwng 7/8-11 oed cyflwynir y Saesneg fel iaith ac fel cyfrwng ar gyfer rhai elfennau o'r cwricwlwm. Asesir y disgyblion yn bennaf yn y Gymraeg gyda pheth asesu yn y Saesneg fel bo'n briodol.<br><br>• Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed. |

| Addysg Uwchradd (Diffiniadau Drafft) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori 1**<br><br>Ysgol:<br>Saesneg | | **Categori 2**<br><br>Ysgol:<br>Cymraeg/Saesneg/<br>Dwyieithog | | **Categori 3**<br><br>Ysgol:<br>Cymraeg/ Dwyieithog |
| | ***(Categori 1T)<br>Is-Ffrwd***<br><br>Ysgol:<br>Dwyieithog<br>Trawsnewidiol<br>(Cyfnod penodedig o 6 mlynedd) | | ***(Categori 2T)<br>Is-Ffrwd***<br><br>Ysgol:<br>Cymraeg/<br>Dwyieithog<br>Trawsnewidiol<br>(Cyfnod penodedig o 6 mlynedd) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol.<br><br>• **Cyfleoedd/Disgwyliadau datblygol** Mae cyfle datblygol o fewn y categori hwn i ysgol arbrofi gyda chynnig ychydig mwy o ddysgu cyfrwng Cymraeg er mwyn ymestyn sgiliau ieithyddol disgyblion. Yn y cyfnod datblygol hwn bydd ysgolion yn sicrhau y bydd **o leiaf 20% o ddisgyblion** yn dilyn **un maes astudio** trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol. | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel pwnc a chynigir rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd **o leiaf 20% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 3 phwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i | • Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod o bynciau (50%-75%) trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br>• Bydd o **leiaf 40% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 3 phwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên)**.** | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod gynyddol a helaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol. | • Addysgir yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir pob pwnc ar wahân i Saesneg/ Llên Saesneg yn y Gymraeg**.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd **o leiaf 70% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 5 pwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên)**.**<br><br>• Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant priodol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. | • Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant amrywiol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. | • Dros gyfnod o 6 mlynedd **bydd y ganran o ddisgyblion** sy'n dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed **mewn o leiaf 5 pwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên) **yn cynyddu o 40% i 70%.**<br><br>• Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant amrywiol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o | • Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant amrywiol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. | |

**Materion allweddol yr ystyriwyd wrth ddod i gasgliadau am gategorïau ysgolion**

1. Nodir isod y materion hynny y'u trafodwyd wrth ddod i benderfyniad ar argymhellion yr adroddiad hwn. Fe'u nodir er mwyn esbonio nifer o'r penderfyniadau a wnaed. Yn eu hanfod mae'r diffiniadau a gynigir yn ddarnau byr o destun ond er hynny cymerodd gryn drafod ac ystyried cyn cyrraedd yr argymhellion hyn.

2. Mewn trafodaeth gyda'r Gweinidog Addysg, cyn i'r gwaith ymchwil hwn ddechrau, nododd y Gweinidog ei hawydd i weld cyfundrefn gategoreiddio, o ran natur ieithyddol ysgolion, a oedd yn syml a chlir ac yn hawdd i'w ddeall gan rhieni, ysgolion ac awdurdodau addysg. Nododd hefyd ei dymuniad i weld llai o gategorïau nag oedd ar waith yn bresennol, gan y byddai hynny'n cynorthwyo rhieni i ddeall yn well beth oedd natur y ddarpariaeth roedd eu plant yn ei dderbyn. Wrth lunio'r categorïau drafft newydd, cadwyd yn agos at yr egwyddorion hyn, gan gadw mewn golwg hefyd yr uchelgais a geir yn nogfen polisi'r Llywodraeth yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Llywiwyd y gwaith hefyd gan yr argymhellion a ddeilliodd o *Adolygiad Brys* Aled Roberts o'r *Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)* presennol ynghyd â'r argymhellion a ddeilliodd o'r grŵp a sefydlwyd i ystyried esblygu'r cynlluniau CSGA presennol. Mae un o argymhellion adroddiad y grŵp hwnnw yn berthnasol iawn yng nghyd-destun diffinio ysgolion a'r broses strategol o dyfu'r sector Cymraeg, sef y dylai'r CSGA newydd gynnwys cynllun strategol sy'n rhychwantu cyfnod o ddegawd yn hytrach na'r tair blynedd presennol. Bydd hyn yn sicr o arwain at gynllunio strategol llawer mwy pwrpasol o ystyried fod cynllunio datblygiad iaith a sicrhau newidiadau pwrpasol o fewn y gyfundrefn addysg yn fater hir-dymor ac yn gofyn am gynllunio gofalus dros gyfnod sylweddol o amser.

**Nifer y categorïau**

3. Cytunwyd mai trefn syml o gategoreiddio oedd ei angen er mwyn sicrhau fod rhieni'n arbennig yn deall beth oedd y ddarpariaeth oedd yn cael ei gynnig a beth y gallent ei ddisgwyl o ran lefel sgiliau ieithyddol eu plant. Nododd gwaith ymchwil Yr Athro Colin Baker, wrth ddadansoddi'r data o PLASC, y gellid creu chwe chategori gwahanol o ysgolion wrth edrych ar y sector uwchradd. O'r data ei hun dau gategori amlwg oedd yn ymddangos sef un categori o ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg ac un categori sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y canol roedd grŵp o ysgolion a oedd mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn nodwedd amlwg o'r cymunedau sy'n bwydo'r ysgolion. Roedd yr ysgolion yn eu darpariaeth yn adlewyrchu'r gymuned gymysg yn ieithyddol sy'n bodoli o'u cwmpas. Gellid fod wedi rhannu'r grŵp hwn i nifer o gategorïau gwahanol, ond penderfynwyd mai doethach oedd eu cynnwys mewn un grŵp gan roi'r her iddynt oll gynyddu eu darpariaeth Gymraeg dros y blynyddoedd sy'n dod.

**Pa derminoleg i'w defnyddio wrth benderfynu ar enwau i'r categorïau?**

4. Cafwyd trafodaeth sylweddol iawn ar fater enwi'r gwahanol gategorïau. Un farn oedd y dylid cadw'n fras at y sefyllfa bresennol gan eu bod yn gyfarwydd. Ond cytunwyd yn gyffredinol fod gormod o amrywiaeth yn y termau a ddefnyddid ar hyn o bryd a hefyd fod llawer o gamddehongli wedi bod arnynt yn y gorffennol, Cytunwyd y byddai hi'n ddoethach defnyddio termau mwy niwtral, termau nad oedd iddynt amrywiaeth o ystyron ac sy'n cael eu camddehongli ar hyn o bryd. Wrth drafod, cynigiwyd defnyddio llythrennau megis A, B neu C, neu gyfres o lythrennau a fyddai'n llunio gair. Ystyriwyd y gair a'r llythrennau TWF yn y cyd-destun hwn. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o ddefnyddio geiriau anogol i ddisgrifio'r categorïau. Daethpwyd i'r casgliad ar ddiwedd y trafod mai'r dull y dylid ei argymell oedd defnyddio rhifau wrth gategoreiddio, sef Categori 1, 2 a 3.

5. Pan roedd cynnig yn ystod y trafodaethau y dylid creu 5 categori o ysgolion, roedd y drefn rhifo'n haws, gan fod 1 neu 5 yn gallu cael ei ddehongli fel rhif uchel! Ond gyda 1, 2 a 3, mae'n bosibl y gall y rhif 3 gael ei ddehongli fel rhif is nag 1. Ond cytunwyd y byddai esbonio'r rhifau a'r ystyron sydd ynghlwm wrth y rhifau yn rhan bwysig o'r broses o gyflwyno'r categorïau newydd. Wrth drafod gyda rhan-ddeiliaid yn y maes y syniad o gategoreiddio gan ddefnyddio rhif i ddynodi categori, cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cysyniad. Cytunwyd y byddai manteision sylweddol mewn peidio â defnyddio'r penawdau cryno presennol gan eu bod yn cael eu camddehongli'n gyson. Cytunwyd hefyd y byddai angen cyplysu'r rhif â disgrifiad cynhwysfawr o bob categori a byddai'r disgrifiad hwn yn nodi taith ieithyddol eu plentyn a beth fyddai y rhiant/rhieni a'r plentyn yn gallu ei ddisgwyl o ran hyfedredd ieithyddol ar ddiwedd y daith honno.

**Ysgolion/ Ffrydiau Trosiannol**

6. Un o fwriadau'r broses o ail ystyried sut mae ysgolion yn cael eu categoreiddio o ran iaith oedd ceisio gosod trefn yn ei lle a fyddai'n cymell ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol. I'r perwyl hwn, ceisiwyd llunio categorïau sy'n cynnig llwybr datblygol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn y cynradd , yng Nghategori 1 rhoddir lle o fewn y diffiniad i ysgolion Saesneg yn bennaf gynyddu eu darpariaeth Gymraeg gan annog defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer rhywfaint o'r meysydd dysgu a phrofiad.

   Y cam datblygol nesaf o ran ysgolion Categori 1 yw symud i fod yn ysgolion Categori 2 neu 3. Tybiwyd y gallai'r naid o un categori i'r llall fod yn ormod o ddatblygiad i rai ysgolion, felly penderfynwyd cynnig fod dau gategori neu is-gategori trosiannol yn cael eu creu, un rhwng categori 1 a 2 ac un arall rhwng categori 2 a 3. Daethpwyd i'r casgliad mai is-gategorïau datblygol ddylai'r rhain fod. Cytunwyd felly y dylid argymell mai tri chategori ddylid eu sefydlu gyda dau is-gategori trosiannol sy'n rhoi cyfle i ysgolion sy'n dymuno

datblygu ymhellach eu darpariaeth Gymraeg wneud hynny dros gyfnod estynedig ond ymarferol o amser. Cytunwyd hefyd fod y patrwm hwn yn batrwm priodol ar gyfer y sector uwchradd hefyd. Ar gyfer yr ysgolion sy'n dymuno symud i'r cyfnod trosiannol hwn, nodir yr angen iddynt gytuno cynllun datblygol gydag awdurdod lleol a bod hynny'n cael ei nodi yn CSGA'r awdurdod perthnasol.

**Gwahaniaethau o ran categorïau rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd**

7. Wrth benderfynu ar y nifer y categorïau, a dod i'r casgliad mai cynnwys tri chategori oedd yn briodol ar gyfer y sector uwchradd, cytunwyd mai da fyddai ceisio cael yr un nifer ar gyfer y cynradd hefyd. Wedi dweud hynny nid yw'r categorïau yn cyfateb yn union i'w gilydd. Yn y cynradd penderfynwyd y dylid argymell adeiladu ar yr hyn sy'n bod yn barod, sef, yn fras, ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg ac ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg gan gynnig model sy'n eistedd yn y canol rhwng y ddau fodel arall. Cafwyd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y model hwn gan y dull categoreiddio ysgolion a geir yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid. Yno, yn eu Model B nhw, a fyddai'n cyfateb i Gategori 2 arfaethedig yng Nghymru, mae'r patrwm hwn o ddysgu'n ddwyieithog wedi cael ei arfer ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Mae'r niferoedd o rieni sydd wedi dewis y model hwn wedi bod yn sylweddol ac mae llawer o ddisgyblion yn y wlad honno wedi dod yn rhugl yn y Fasgeg trwy ddilyn darpariaeth y model dwyieithog o ddysgu iaith. O'u tystiolaeth hwy, fe welwyd fod llawer o rieni yn teimlo'n fwy cyfforddus gyda'r model hwn fel man cychwyn y broses o ddysgu'r iaith a newid arferion ieithyddol. Argymhellir y model hwn ar gyfer y sector cynradd yma yng Nghymru gyda'r bwriad y byddai disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn yn gallu dewis a ydynt yn dymuno parhau ag addysg Gymraeg neu ddwyieithog wrth symud i'r sector uwchradd.

**Nodweddion ysgolion/ffrwd Categori**

8. Ysgolion/Ffrydiau dwyieithog fyddai'r ysgolion/ffrydiau hyn. Ar wahân i gyflwyno'r Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd, byddid yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal wrth gyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn y Cwricwlwm newydd. Nodwedd y drefn hon yw bod disgyblion yn gwneud y cynnydd arferol yn eu hiaith gyntaf, sef, fel arfer Saesneg, tra ar yr un pryd yn gwneud cynnydd llawer mwy sylweddol yn y Gymraeg na fyddent yn ei wneud mewn ysgol Saesneg yn bennaf ei chyfrwng. Bydd angen ystyried yn ofalus sut y bydd yr ysgolion hyn yn cael eu strwythuro o ran amser cwricwlaidd. Cafwyd arbrofion gydag ysgolion o'r math hyn yng Nghymru rai blynyddoedd yn ôl gyda nifer ohonynt yn llwyddiannus iawn. Lle'r oedd diffyg llwyddiant, roedd hynny'n adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o'r model a'r math o gynllunio oedd ei angen wrth drefnu'r cwricwlwm a'r cydbwysedd ieithyddol. Am ragor o fanylion am y model hwn gweler *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism.* Colin Baker. Multilingual Matters**.**

**Ysgol/ ffrwd  ddeuol**

9. Wrth gynllunio datblygiad y categori hwn o ysgolion bydd angen ystyried y materion datblygol canlynol:

**Cynllunio strategol** (gweledigaeth; egwyddorion; strwythurau)

- Cytuno'r egwyddorion a'r weledigaeth ar gyfer sicrhau natur a threfn ddwyieithog yr ysgolion hyn
- Sut y caiff yr ysgolion eu staffio'n briodol er mwyn sicrhau y caiff yr  ysgolion hyn yr arweiniad priodol o du'r pennaeth ac o ran arbenigedd y staff. A fydd angen y staff i gyd fod yn hyfedr ddwyieithog? Pa fath o hyfforddiant a chefnogaeth a ddarperir i'r staff wrth sefydlu a chynnal yr ysgolion hyn?

**Addysgeg**

- Sut fydd y dysgwyr yn yr ysgolion yn dysgu orau? Ai'r un ddarpariaeth ieithyddol fydd i bawb gyda'r dulliau a'r mewnbwn addysgol yn amrywio yn ôl oedran a gallu disgyblion? Sut y dylid strwythuro hyn?
- Llunio cynllun dysgu iaith integredig fel bod defnyddio dwy iaith yn arwain at well dealltwriaeth ynghylch sut mae ieithoedd yn gallu atgyfnerthu ei gilydd
- Hyd y rhaglenni dysgu a fydd yn gysylltiedig â'r ysgolion hyn a pha fath o ddilyniant addysgol ac ieithyddol a gynigir i'r disgyblion?
- Cydbwysedd y ddwy iaith yn ymarferol yn yr ysgolion hyn a beth fydd iaith gyfathrebu ddyddiol yr ysgolion.
- Ym mha iaith y bydd disgyblion yn dysgu darllen a datblygu sgiliau penodol ym maes llythrennedd? A ellir cynllunio i ddatblygu ymhellach sgiliau trawsieithu plant?

**Asesu**

- Natur cyfundrefnau asesu'r ysgolion hyn a beth fydd meini prawf llwyddiant

**Isadeiledd** (gweithlu addysg; adnoddau)

- Yr  adnoddau dysgu y bydd angen eu cynllunio a'u darparu

**Cyfathrebu** (rhieni a phartneriaid eraill)

- Amlinellu'r ymrwymiadau addysgol ac ieithyddol fydd yn cynnig sicrwydd i rieni ac yn gwneud y dewis yn atyniadol i rieni na fyddai wedi ystyried anfon eu plant i addysg Gymraeg.

**A oes angen modelau mewnbwn ac allbwn ar gyfer y cynradd a'r uwchradd?**

10. Wrth ystyried sut y gellid sicrhau fod rhagor o ddisgyblion yn dod yn gwbl rugl a hyderus yn y Gymraeg trwy gyfrwng y cynlluniau trochi ieithyddol, ystyriwyd dulliau i sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. O edrych ar y sector gynradd, gwelwyd nad oedd dilyniant o fewn y sector honno'n achosi anawsterau sylweddol mewn llawer o ardaloedd. Gwelir fod diffyg dilyniant ieithyddol o ran dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn dechrau wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r sector uwchradd a bod hynny'n cynyddu wrth i'r disgyblion symud drwy'r sector honno. Cytunwyd felly y byddai'n dda, wrth gategoreiddio ysgolion uwchradd, defnyddio dau faen prawf a fyddai'n cymell ysgolion a chyrff llywodraethol i gynllunio ar gyfer gwella lefelau dilyniant. Felly, cynigir fod modelau categori 2 a 3 yn cael eu diffinio yn ôl model mewnbwn ac allbwn, sef:

- y niferoedd o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg a gynigir gan ysgol

- y ganran o ddisgyblion sy'n dilyn y meysydd dysgu a phrofiad hynny trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed.

**A ddylid nodi canrannau oriau dysgu?**

11. Codwyd mater nodi canrannau ac amseroedd faint o ddysgu y dylid ei wneud yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn y categorïau. Penderfynwyd osgoi hynny gymaint ag oedd yn bosibl. Cytunwyd, er hynny, fod angen llunio dogfen bolisi neu arferion gorau o ran addysg Gymraeg ac y dylid delio â mater y canrannau amser ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg o fewn y ddogfen honno.

**A fyddai ysgolion yn gallu cael eu cynnwys mewn mwy nag un categori?**

12. Cytunwyd y gallai ysgol gynradd fod mewn mwy nag un categori. Er enghraifft gallai ysgol gynradd fod yn perthyn i Gategori 1 a 2 neu 1 a 3. Felly cyfeirir at ffrwd neu ysgol wrth sôn am gategoreiddio'r ddarpariaeth gynradd .Rhagwelwyd y byddai dynodi bod ysgolion uwchradd yn gallu bod mewn mwy nag un categori yn achosi anawsterau wrth ddefnyddio'r model mewnbwn ac allbwn, felly cynigir y dylid categoreiddio ysgolion uwchradd fel un uned o ran y drefn categoreiddio newydd.

**Defnyddio data PLASC i gategoreiddio ysgolion Cymru yn ôl y ddarpariaeth ieithyddol**

13. Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn ar ddiffinio addysg Gymraeg, penderfynwyd comisiynu Yr Athro Colin Baker, sy'n arbenigwr rhyngwladol mewn dwyieithrwydd, addysg ddwyieithog ac mewn astudiaethau ystadegol, i graffu'n fanwl ar ddata PLASC yng Nghymru. Y bwriad yn y fan hon, wrth ddadansoddi'r data, oedd gweld a oedd y data'n dangos gwahanol ddulliau y gellid eu hystyried o glystyru neu gategoreiddio ysgolion yng Nghymru a hynny ar sail y data cyfredol a gesglir.

    Yn y gorffennol seiliwyd sut y disgrifiwyd neu y categoreiddiwyd addysg Gymraeg ar faterion cysyniadol yn hytrach nag ar ddata . Penderfynwyd felly defnyddio'r data sydd ar gael ar ysgolion yn PLASC i ddod o hyd i ddosbarthiadau empirig. Noda'r Athro Baker yn glir ar ddechrau ei adroddiadau nad yw'r dull empirig yn cynnig atebion llawn gan fod y dull hwn sydd wedi ei seilio ar ddata yn llywio ond nid yw'n cynnig datrysiad pendant!

    Wrth edrych ar ddata PLASC, dewisodd yr Athro Baker ddefnyddio 10 newidyn penodol er mwyn dadansoddi'r data yno a gweld a oedd patrymau'n codi wrth edrych ar y gwahanol fathau o ysgolion yn ôl eu proffil ieithyddol.

**Cronfa ddata PLASC**

Mae'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiadau yn deillio o Gyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgybl 2017/2018 (PLASC).

Defnyddiwyd deg newidyn PLASC yn ymwneud â'r Gymraeg i ddosbarthu 1261 o Ysgolion Cynradd a 194 o Ysgolion Uwchradd.

Y newidynnau hyn yw:

**Newidyn 1: ATHRAWON _TCTO**

- % Athrawon mewn Ysgol (Llawn Amser a Rhan Amser) sy'n:
- TC Athrawon cymwys yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac
- Athrawon cymwys sy'n dysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Newidyn 2: ATHRAWON_ NW**

- % Athrawon mewn Ysgol sy'n:
- NW Cymwysedig ac yn gallu dysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond heb wneud hynny.

**Newidyn 3:** Disgyblion Rhugl

- % Disgyblion mewn Ysgol sy'n rhugl yn y Gymraeg

**Newidyn 4:** Disgyblion heb fod yn rhugl

- % Disgyblion mewn Ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl

**Newidyn 5:** Cymraeg gartref

- % Disgyblion mewn Ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg gartref.

**Newidyn 6:** Astudio'r Gymraeg_

- % Disgyblion mewn Ysgol sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.

**Newidyn 7:** Prif Gyfrwng

- % Dosbarthiadau mewn Ysgol lle mae'r Gymraeg yn unig neu'n brif gyfrwng yr addysgu.

**Newidyn 8:** Dosbarth Rhan

- % Dosbarthiadau mewn Ysgol lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu ar gyfer rhan o'r cwricwlwm (h.y. llai na hanner).

**Newidyn 9**: Dosbarth Ail iaith

- % Dosbarthiadau mewn Ysgol lle mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith yn unig.

**Newidyn 10:** Llywodraethwyr Cymru

- % Llywodraethwyr Cymru mewn Ysgol sy'n siarad Cymraeg.

**Dadansoddiad Clwstwr**

- Y weithdrefn ystadegol a ddefnyddiwyd ar gyfer dosbarthu Ysgolion yw Dadansoddi Clwstwr. Ceir trafodaeth fanwl a thechnegol o'r dechneg a'i chyfyngiadau yn adroddiad Yr Athro Baker. Mae Dadansoddiad Clwstwr yn ystyried pob ysgol gynradd ac yn darganfod pa grŵp (clwstwr) maent yn ei ffitio orau gan ddefnyddio'r 10 dimensiwn PLASC. Defnyddir Dendrogram ac ystadegau eraill i ddarganfod nifer y clystyrau sy'n gweddu orau i'r data. Defnyddiwyd y weithdrefn K-Means ar gyfer y dadansoddiadau clwstwr (gweler adroddiad yr Ysgol Uwchradd am fanylion) gydag un eithriad lle'r oedd dadansoddiad hierarchaidd yn well ar gyfer y broses o ddehongli.

**Faint o Glystyrau?**

- Mae'r Athro Baker yn nodi yn ei adroddiadau ar y sector cynradd ac uwchradd fod y profion ystadegol a graffiau amrywiol o 'ffit orau', ynghyd â'n dealltwriaeth o'r wybodaeth, yn awgrymu bod **naill ai tri, pedwar neu bum clwstwr yn briodol ar gyfer data ysgolion cynradd a thri i chwe chlwstwr yn bosibl ar gyfer y sector uwchradd**. Noda'r Athro Baker fod dehongli datrysiadau clwstwr yn bwysig iawn a'i bod hi'n synhwyrol i archwilio sawl datrysiad. Er enghraifft, mae Dendrogram ar gyfer y set ddata hon o 10 newidyn a 1261 o ysgolion cynradd yn awgrymu 'ffit orau' o dri, pedwar neu bum clwstwr tra bo graff Scree yn awgrymu pum clwstwr. Canfuwyd bod datrysiad chwe chlwstwr yn y cynradd yn amhriodol gan fod un clwstwr yn

cynnwys pum ysgol yn unig. Gwelwyd hefyd fod datrysiad dau glwstwr yn rhy ansensitif i wahaniaethu ysgolion ‘Cymraeg’, gan ei fod yn cynnwys 171 o ysgolion cynradd ‘Cymraeg’ a 1090 o ysgolion ‘iaith Saesneg’. Roedd dadansoddiad clwstwr hierarchaidd tri chlwstwr yn darparu datrysiad gwell ac un oedd yn hawdd ei ddehongli a’i ddeall.

- Ceir yn adroddiadau yr Athro Baker ddadansoddiad manwl o’r gwahanol fodelau yn y sectorau cynradd a’r uwchradd sy’n nodi’r gwahanol amrywiadau posibl rhwng y gwahanol fodelau. Ni cheir atebion terfynol ynghylch y nifer o gategorïau a fyddai’n addas ar gyfer y sector ysgolion ond nodir yn glir fod dau gategori yn y sector cynradd ac uwchradd sy’n rhannu’n ddau glwstwr gweddol o gadarn sef ysgolion sy’n dysgu’n Saesneg yn bennaf ac ysgolion sy’n dysgu’n Gymraeg yn bennaf. Rhwng y ddau gategori hwn y ceir yr amwysedd, sef ymysg yr ysgolion sy’n cynnig darpariaeth fwy dwyieithog. Y cwestiwn sy’n codi yw sut orau y gellir rhannu’r sector honno gan mai gweddol o fach yw hi’n ystadegol. Yn y fan hon mae’r mân raniadau yn gallu codi o ran dadansoddi’r data a chynnig atebion a fydd yn gwneud synnwyr o’r data ac o’n gwybodaeth wrthrychol a goddrychol ni am y sector ysgolion yng Nghymru

**Yr angen i adolygu’r diffiniadau presennol o addysg cyfrwng Cymraeg.**

14. Yn adroddiad diweddar y *Bwrdd Cynghori ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA),* wrth iddo gyflwyno ei sylwadau i sylw’r Gweinidog ar gynlluniau i gryfhau’r seilwaith cynllunio ar gyfer addysg Gymraeg, nodwyd yr angen i
‘*ailedrych hefyd ar y diffiniadau cyfredol o ran categoreiddio ysgolion yn ôl eu natur ieithyddol... Daeth yr Adolygiad Brys i’r casgliad ei bod yn bryd symleiddio’r broses o gategoreiddio ein hysgolion o ran iaith. Mae’n amlwg erbyn hyn nad yw’r dull presennol o gategoreiddio yn delio’n briodol gyda’r ddarpariaeth ieithyddol mewn nifer o’n hysgolion. Mae hyn yn creu rhywfaint o ddryswch o ran dealltwriaeth rhieni am natur ieithyddol rhai ysgolion ond hefyd yn creu darlun aneglur o ran natur y ddarpariaeth leol. Canlyniad hyn yw ei bod hi’n aneglur i rieni pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gellir ei disgwyl mewn gwahanol gategorïau. Fe gyfeiriwyd at hyn yn adroddiad Estyn yn 2014 sef “[nad] yw’r categoreiddio swyddogol [...] yn cael ei ddefnyddio yn gywir bob tro.[1]”*

[1] https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Dilyniant_ieithyddol_a_safonaur_Gymraeg_mewn_deg_ysgol_ddwyieithog_-_Tachwedd_2014.pdf

15. Pwrpas yr adroddiad hwn felly yw ystyried yr angen am adolygu'r diffiniadau presennol o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu'r Gymraeg fel maes astudiaeth a chynnig modelau newydd ar gyfer diffinio'r ddarpariaeth yn ysgolion Cymru yn ôl eu natur ieithyddol. Wrth gyflawni hyn, rhaid cadw mewn golwg yr heriau cyffrous ond sylweddol sydd yn rhan greiddiol o weledigaeth strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Wrth wraidd y gofyn am adolygu'r diffiniadau mae'r angen hefyd i sicrhau bod rhieni a llywodraethwyr ysgol hefyd yn deall yn iawn beth yw natur yr ysgolion maent yn ymhél â hwy a beth yw'r cyfleodd ieithyddol mae'r ysgolion hynny yn eu cynnig i blant Cymru. I'r perwyl hwn, ac yn ogystal ag er mwyn ennyn diddordeb llawer mwy o rieni mewn cyflwyno addysg Gymraeg i'w plant, rhaid i'r diffiniadau diwygiedig fod yn rhai llawer mwy clir a syml na'r rhai presennol fel bod y dewisiadau sydd ar gael i rieni yn hawdd i'w hesbonio a'u deall.

**Addysg a Chynllunio Ieithyddol yng Nghymru**

16. Un o brif gryfderau'r Gymraeg fel iaith leiafrifol, na fu'n iaith gwladwriaeth yn y cyfnod modern, yw bod lefelau llythrennedd yn y Gymraeg yn draddodiadol yn gymharol uchel. Gwelwyd hyn ar ei gryfaf yn hanesyddol yn ystod cyfnodau datblygu'r ysgolion cylchynol yn y ddeunawfed ganrif ac ystod cyfnodau aur datblygiad yr ysgolion Sul yng Nghymru. Mae i'r Gymraeg hanes hir a chlodwiw o ran ei thraddodiad llenyddol a diwylliannol, ac mae'n fanteisiol iawn fod y Gymraeg wedi ei safoni i raddau helaeth rhai canrifoedd yn ôl bellach. Mae hyn, wrth gwrs, o fantais amhrisiadwy yn yr oes ddigidol hon, lle mae ein dibyniaeth ar yr iaith ysgrifenedig, mewn e-bost neu neges destun neu lun, yn sylweddol iawn.

17. Mae llawer o'r diolch am hyn oll, wrth gwrs, i'r cyfundrefnau addysgu a ddatblygodd yng Nghymru dros y 250 mlynedd diwethaf. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn llythrennedd gyda sefydlu ysgolion cylchynol Griffith Jones yn 1731, ac mewn cwta ddeng mlynedd ar hugain, rhwng 1731 ac 1761, mewn cyfnod pan nad oedd addysg yn orfodol, dysgodd oddeutu 200,000 o bobl gyffredin Cymru ddarllen y Gymraeg. Erbyn ail hanner y ganrif honno, roedd mwy na hanner poblogaeth Cymru'n llythrennog. Camp ryfeddol, ac un mae'n werth cofio amdani wrth ystyried dogfen bolisi Llywodraeth Cymru: *Cymraeg2050: Miliwn o Siaradwyr* a'r targed heriol o ran cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg a geir yno.

18. Parhaodd y diddordeb hwn mewn addysg a dysg yng Nghymru dros y canrifoedd. Wrth i addysg orfodol ddod yn rhan o batrwm addysg, gwelwyd, gyda throad y ganrif ddiwethaf, nifer o siroedd Gorllewin Cymru yn ail gydio yn yr arfer hon o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Digwyddodd hyn yn bennaf yn y sector gynradd mewn ardaloedd gwledig, yn aml lle roedd y boblogaeth

yn ymylu ar fod yn uniaith Gymraeg. Erbyn dechrau’r 1930au Cymraeg oedd prif gyfrwng y dysgu yn ysgolion cynradd rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru ac yng Ngheredigion.

**Demograffeg yr Iaith Gymraeg**

19. Ar ddechrau’r ganrif ddiwethaf, oddeutu miliwn o boblogaeth Cymru oedd yn siarad y Gymraeg allan o boblogaeth o ddwy filiwn, er mai ychydig oedd yn derbyn addysg yn y Gymraeg. Dros y ganrif ddiwethaf gwelwyd y Gymraeg yn colli ei thir dros gyfnod dau ryfel byd ac erbyn dechrau’r mileniwm hwn dim ond rhywle o gwmpas 20% o’r boblogaeth oedd yn nodi eu bod yn siarad y Gymraeg, sef oddeutu 600,000 o boblogaeth o 3 miliwn. Er hynny, mae’r Gymraeg yn parhau i gael ei siarad heddiw gan ganran arwyddocaol ym mhob ardal yng Nghymru gan gynnwys canran sylweddol o bobl ifanc sy’n siarad yr iaith yn ddyddiol. Mae dwyster canran y siaradwyr yn parhau i fod yn uwch yng ngogledd a gorllewin Cymru, ond mae’r niferoedd mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn byw o fewn tri chwarter awr o deithio i ddinas Abertawe.

20. Dros y degawdau diwethaf gwelwyd nifer cynyddol o bobl ifanc yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn nwyrain y wlad. Ond wrth gyplysu hynny gyda’r symudiad demograffeg sydd i’w ganfod wrth i siaradwyr Cymraeg symud o’r wlad i’r pentrefi mwy, y trefi a'r dinasoedd, mae patrwm lle y siaredir y Gymraeg bellach yn newid yn sydyn ac yn gyson.

21. Adlewyrchir y niferoedd uwch sy’n siarad y Gymraeg yn y gorllewin a’r gogledd yn natur ac amrywiaeth y ddarpariaeth addysgol Gymraeg a dwyieithog a geir yno. Gwelir llawer mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn parhau i fod yn y gorllewin a’r gogledd ac yno mae’r niferoedd mwyaf yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg.

**Datblygiad Addysg Gymraeg**

22. Datblygodd addysg Gymraeg yn sylweddol dros y ganrif ddiwethaf, ac yn benodol yn sgil Deddf Addysg 1944 pan roddwyd caniatâd i awdurdodau lleol ystyried sefydlu ysgolion Cymraeg. Datblygodd y ddarpariaeth newydd yn bennaf dan ddylanwad polisïau arloesol rhai awdurdodau addysg , arweiniad gan rai arolygwyr ysgolion ei mawrhydi, a phwysau gan rieni a oedd yn dymuno derbyn addysg Gymraeg i’w plant. Agorwyd yr ysgol Gymraeg ddynodedig gyntaf yn Llanelli yn 1947 a’r ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf, Ysgol Glan Clwyd, yn y Rhyl yn 1956. Roedd yr ysgolion hyn yn y man cyntaf yn ysgolion a oedd yn darparu addysg yn y Gymraeg i blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Ond gyda’r diddordeb mewn addysg Gymraeg yn tyfu, a

mabwysiadu syniadau am addysg drochi o Ganada yn yr 1960au, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o blant o gartrefi di- Gymraeg yn dewis addysg drochi yn y sector cyfrwng Cymraeg. Erbyn hyn mae oddeutu 2 o bob 3 yn y sector cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg. Er hynny, rhaid cofio bod dwy elfen ieithyddol yn cydfyw o fewn y gyfundrefn addysg Gymraeg, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Darperir rhaglen o addysg drochi ar gyfer plant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg ynghyd â darpariaeth ar gyfer plant o gartrefi Cymraeg ac sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r gred ymysg rhieni di Gymraeg, yn ogystal â'r siaradwyr Cymraeg, fod gwerth mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gonglfaen i lwyddiant y sector hwn i dyfu a datblygu ar draws Cymru.

23. Er y datblygwyd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y man cyntaf ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg i blant a oedd yn siaradwyr y Gymraeg, roddwyd sylw sylweddol i ddysgu'r Saesneg gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn enwedig o 7 oed ymlaen. Arbrofwyd gyda'r patrymau o gyflwyno'r Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd ar draws Cymru ac arweiniodd hyn at sefyllfa a alwyd gan Colin Baker (1993) yn 'kaleidoscopic variety'.

**Addysg Drochi yn y Gymraeg**

24. Datblygodd addysg drochi yng Nghymru mewn dull gwahanol i'r hyn a welwyd yng Nghanada yn ystod y 1960au, er mai oddi yno, i ryw raddau, y daeth yr ysbrydoliaeth. Datblygodd mewn dull strwythurol sylfaenol wahanol yma yng Nghymru. O fewn y sector cyfrwng Cymraeg y darperir addysg drochi yma o'i gymharu â Chanada, lle darperir y profiad trochi mewn Ffrangeg yn yr ysgolion Saesneg eu cyfrwng.

25. Datblygodd addysg drochi ei phatrwm ei hun yng Nghymru. Y patrwm cyffredinol a ddatblygodd oedd bod yr holl ddysgu tan 7 oed yn y Gymraeg a bod mwy na thri chwarter y dysgu o 7-11 oed hefyd yn y Gymraeg. Ni sefydlwyd patrymau cyffelyb ar gyfer addysg drochi yn yr uwchradd er y byddai manteision sylweddol wedi bod o wneud hynny i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn enwedig. Byddai gwneud hynny wedi cynorthwyo i wella a chynnal sgiliau ieithyddol disgyblion wrth iddynt gael mwy o ddewis ieithyddol wrth astudio pynciau amrywiol.

26. Byddai manteision pendant mewn diffinio'n llawnach beth yw hyd a lled addysg drochi a beth yw ymrwymiad plant a'u rhieni wrth iddynt ymgymryd â'r daith ieithyddol sydd ynghlwm wrth hynny. Drwy wneud hyn gellid sicrhau gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r ymrwymiad a'r disgwyliadau gan rieni a llywodraethwyr ynghyd â beth gall rhieni ddisgwyl i'w plant fedru ei gyflawni'n ieithyddol erbyn eu bod yn 16 oed o ddilyn cwrs addysg drochi yn y Gymraeg. Ceid mantais benodol o wneud hynny ar hyn o bryd wrth i'r Cwricwlwm diwygiedig gael ei gyflwyno yma yng Nghymru

27. Un maes arall sydd angen sylw wrth ystyried Addysg Drochi yw Addysg Drochi Hwyr. Datblygodd y ddarpariaeth hon yn gyntaf yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Cyfle oedd hwn i blant yn 10-11 oed wrth drosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd newid cyfrwng eu haddysg a dilyn cwrs dwys i ddysgu'r Gymraeg gan ei defnyddio fel cyfrwng eu haddysg o hynny ymlaen. Dangosodd ymchwil academaidd lwyddiant yr agwedd hon ar Addysg Drochi. ( Doethuriaeth Dr Cen Williams. Astudiaeth o sefyllfa drochi ddiweddar yn Ysgol Maes Garmon y Wyddgrug. Bu'n dilyn dosbarth o ddysgwyr a dderbyniwyd o'r sector cynradd di-Gymraeg am 5 mlynedd rhwng Gorffennaf 1994 a Mawrth 1999.) Cafwyd arian grant dros y ddau ddegawd diwethaf i arbrofi mewn ysgolion eraill gyda'r dull hwn o gyflwyno'r Gymraeg. Fel rhan o'r astudiaeth o Addysg Drochi yng Nghymru, byddai'n fuddiol gweld sut y gellid defnyddio'r ddarpariaeth hon i gynyddu mynediad i addysg Gymraeg a gweld hefyd sut y gellid un ai gyllido'r ddarpariaeth mewn ffordd ystyrlon trwy gyllido grant, neu brif ffrydio'r ddarpariaeth o fewn prif frwd addysg yng Nghymru. Roedd y ddarpariaeth arbrofol hon yn enghraifft arall o Gymru'n arloesi a byddai'n drueni peidio manteisio ar ein creadigrwydd ein hunain.

**Cynllunio Addysg Gymraeg**

28. O ran y broses o gynllunio'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg o'r 1940au ymlaen, datblygodd polisïau ar gyfer Addysg Gymraeg yn bennaf ar lefel leol neu sirol. Gwelwyd cynlluniau arloesol yn cael eu cyflwyno gan rai siroedd a oedd yn ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg gan sicrhau mai prif iaith yr addysgu, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, oedd y Gymraeg. Er hynny, yn 1993 dim ond 6 o'r 8 sir yng Nghymru oedd â pholisi penodol o ran datblygu'r Gymraeg mewn addysg.

29. Gyda sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg sefydlwyd y drefn o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993) o gytuno Cynlluniau Iaith. Datblygwyd ar yr un pryd y gofyniad i bob awdurdod addysg lleol lunio Cynllun Addysg Gymraeg i'w gytuno gyda'r Bwrdd. O ran egwyddorion y cynlluniau hyn cytunwyd o'r dechrau y byddai rhieni a oedd yn dymuno addysg Gymraeg i'w plentyn yn medru gwireddu'r dymuniad hwnnw. Cynlluniau'r siroedd unigol oedd y cynlluniau a'u prif nod oedd rhoi cyfle i'r siroedd gyflwyno eu cynlluniau strategol i ddarparu digon o leoedd i rieni oedd yn dymuno addysg Gymraeg i'w plant. Tanlinellodd y cynlluniau hyn pa mor wahanol oedd y cyfundrefnau addysg o fewn y gwahanol siroedd gyda therminoleg amrywiol iawn yn cael ei defnyddio i ddisgrifio'r ddarpariaeth Gymraeg, heb fod unrhyw sail gyfreithiol na chenedlaethol i'r derminoleg honno.

30. Yn sgil pwysau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a chyhoeddi adroddiad *Iaith Pawb* yn 2003, cytunodd Llywodraeth Cymru fod angen edrych o ddifri am ddiffiniadau/ disgrifiadau cenedlaethol ar gyfer y gyfundrefn addysg Gymraeg. Felly cafodd grŵp o arbenigwyr eu cynnull dan gadeiryddiaeth y

Bwrdd i gyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth a arweiniodd at gyhoeddi'r ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)*[2].

**Addysg Ddwyieithog**

31. Er bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd wedi bod yn nodwedd o gyfundrefnau addysgu nifer o wledydd, dim ond dros yr ychydig ddegawdau diwethaf y gwelwyd ymchwil trwyadl yn cael ei gynnal ym maes addysg ddwyieithog. Trwy gyfrwng yr ymchwil hwn gwelwyd, er gwrthwynebiad rhai addysgwyr, fod defnyddio dwy iaith wrth gyflwyno'r cwricwlwm yn broses lwyddiannus. Roedd datblygiad addysg ddwyieithog a'r cynlluniau trochi yng Nghanada yn stori o lwyddiant. Tyfodd y ddarpariaeth honno o'r gwaelod i fyny gyda grwpiau lobio megis *Canadian Parents for French* yn gwthio'r ffiniau ac yn gorfodi'r awdurdodau addysg i greu rhaglenni cynhwysfawr a dychmygus. Erbyn dechrau'r ganrif hon, gwelwyd fod llai o amheuaeth a llawer mwy o wybodaeth yn bodoli am werth a photensial addysg ddwyieithog a bellach mae'r syniad fod meddu ar sgiliau mewn dwy iaith o fantais i blant a phobl ifanc wedi gwreiddio yn y tir.

32. Gwelwyd cyfundrefnau dwyieithog yn datblygu yng Nghanada, yng Ngwledydd Prydain, yr Iseldiroedd, yng ngwledydd Sbaen , Estonia, Kazakstan ayb. Wrth i addysg mewn dwy iaith ddatblygu yn y gwledydd hyn, gwelwyd bod yn rhaid cymryd i ystyriaeth hefyd nifer o ffactorau wrth gynllunio am y ddarpariaeth ddiwygiedig. Roedd hyn yn cynnwys ystyried gofynion y cwricwlwm ac asesu, adnoddau dysgu pwrpasol, hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i athrawon ynghyd â chyllido, arolygu a mesur llwyddiant gwahanol elfennau'r gyfundrefn ddwyieithog. Gwelwyd yn glir os nad oedd hyn yn digwydd byddai'r twf arfaethedig yn arafu. Daethpwyd i ddeall os nad oedd cynllunio cyfannol yn digwydd trwy'r gyfundrefn gyfan, yna byddai'r cynnydd yn cloffi. Enghraifft dda o hyn oedd os nad oedd gan y prifysgolion yr arbenigedd a'r adnoddau i hyfforddi athrawon ac addysgwyr, yna ni fyddai llwyddiant yn dilyn.

**Cynllunio cyfundrefn addysg ddwyieithog.**

33. Felly, wrth gynllunio cyfundrefn addysg ddwyieithog dros gyfnod estynedig, rhaid ystyried yn ofalus iawn y grymoedd hynny sy'n gallu hyrwyddo neu lesteirio twf. Yn aml daw'r gyfundrefn addysg ddwyieithog allan o gyfundrefn sydd wedi bod yn gyfundrefn unieithog yn ei hanfod. Felly mae angen strategaeth gadarn yn ei lle sy'n integreiddio'r cysyniad o gynllunio ar gyfer cyflwyno dwy iaith i mewn i brosesau cynllunio addysgol ac ieithyddol y wladwriaeth berthnasol. Yn aml, nid yw hon yn broses syml ac mae'n gofyn am gryn gefnogaeth wleidyddol, cefnogaeth gan rieni ynghyd â chynllunio bwriadus gan wasanaethau'r wladwriaeth.

[2] https://llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg

Er mwyn llwyddo rhaid cael hinsawdd adeiladol yn ei lle sy'n:

- Credu mewn gwerth dwyieithrwydd
- Cynnwys y rhan-ddeiliaid i gyd yn y drafodaeth ddatblygol
- Integreiddio'r broses gynllunio i gynllunio'r brif ffrwd
- Ystyried y grymoedd sy'n gyrru'r brif ffrwd gan addasu neu gynnig cefnogaeth ychwanegol lle mae'r rhain yn milwrio yn erbyn datblygiad y gyfundrefn ddwyieithog

Mae'r rhain yn egwyddorion sy'n cael eu cydnabod ar lefel ryngwladol wrth gynllunio ar gyfer sefyllfa ddwyieithog. Maent yr un mor wir, wrth gwrs, yma yng Nghymru. Rhaid cofio mai yn ddiweddar iawn bu i Lywodraeth Cymru gydnabod yn llawn mai mater i'r Llywodraeth, ac i'r Llywodraeth yn unig, yw cynllunio'n strategol ar gyfer Addysg Gymraeg a dwyieithog ar lefel Cymru gyfan. Cadarnhawyd hyn gyda chyhoeddi *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* gyntaf Llywodraeth Cymru yn 2010, gwta naw mlynedd yn ôl. Yn y strategaeth honno, am y tro cyntaf, eglurwyd gan y Llywodraeth beth oedd natur addysg Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Yno, hefyd, gosodwyd targedau penodol ar gyfer mesur twf y ddarpariaeth a beth fyddai nodweddion llwyddiant dros y cyfnod 2010 i 2015.

## Cyd-destun y presennol

### *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*

*34.* Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Nod y strategaeth hon yw sicrhau bod y nifer o **siaradwyr y Gymraeg yn cynyddu o oddeutu 600,000 i 1 miliwn erbyn 2050** a bod **canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd**, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, **i gynyddu o 10 y cant (yn 2013– 15) i 20 y cant erbyn 2050.**

35. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn bydd angen i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru, ac ysgolion unigol, chwarae rhan hanfodol wrth fynd ati i gyflwyno'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol i blant a phobl ifanc Cymru er mwyn iddynt fod yn medru siarad Cymraeg. Bydd angen o leiaf 438,000 o siaradwyr Cymraeg newydd i gyrraedd y targed o filiwn erbyn 2050. Bydd angen i'r sector statudol felly wneud cyfraniad sylweddol iawn tuag at gyflawni'r targed. Er mwyn paratoi ar gyfer y dasg bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i sicrhau bod y sector addysg, cynradd ac uwchradd, yn medru cyflawni hyn.

36. Mae strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* hefyd yn pwysleisio mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Yn ôl y strategaeth, bydd hefyd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion

cyfrwng Saesneg a dwyieithog sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus. Bydd hyn yn gorfod bod yn rhan o'r Cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg. Y nod drwy'r cwricwlwm newydd fydd annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus yn y system addysg statudol, a sicrhau y bydd nifer cynyddol o ddysgwyr yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

**Y Cwricwlwm Newydd**

37. Mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru yn gosod trefn addysgol tra gwahanol yn ei lle. Bydd y ffyrdd mae disgyblion yn dysgu ar y lefel gynradd ac uwchradd yn newid. Gwelir newid yn nifer o'r ffiniau a'r amserlenni cyfarwydd a bydd mwy o bwyslais wrth ddysgu ar ddatblygu sgiliau ac ar brofiadau yn hytrach na chanolbwyntio'n sylweddol ar wybodaeth. Bydd terminoleg gyfarwydd maes addysg yn newid gan ddisodli termau fel *cyfnodau allweddol* a bydd y cwricwlwm yn un rhaglen ddi-dor o 3-16 oed. Er hynny, bydd y dull o addysgu a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y cyfnod sylfaen presennol yn parhau (er nad oes sicrwydd y defnyddir y term cyfnod sylfaen yn y dyfodol) a bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r dulliau dysgu newydd a'r cyfnodau sy'n dilyn.

38. Bydd y newidiadau hyn yn creu rhywfaint o her newydd ar gyfer y rhaglenni addysg drochi a bydd yn rhaid ystyried sut mae'r dulliau dysgu sy'n gysylltiedig ag addysg drochi yn cyfuno â'r athroniaethau newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Un o'r meysydd lle bydd angen meddwl a dadansoddi ychwanegol fydd yn y blynyddoedd cynnar (cyfnod sylfaen) gan ddatblygu gwell dealltwriaeth ynghylch sut mae'r broses drochi a chaffael iaith yn cyd-fynd â'r broses o ddysgu trwy chwarae. Mewn gwirionedd, bydd angen dadansoddi sut mae'r holl agweddau ar addysg drochi'n clymu gyda'r Cwricwlwm newydd, ei derminoleg a'i ddyheadau. Dylai blethu'n dda os oes lle i ysgolion addasu cynlluniau'r cwricwlwm a'r dulliau dysgu gan roi cyfle i athrawon arbrofi mewn dull integredig. Rhaid, er hynny, sicrhau bod digon o bwyslais ar siarad a thrafod er mwyn gwella sgiliau llafar a hyder plant ifanc o fewn y dull trochi. Diddorol fyddai cymharu â'r prosesau a ddefnyddir yn y gyfundrefn addysg Ffinneg yn y Ffindir pan gyflwynir dysgu'r Swedeg gan ddefnyddio dulliau addysg drochi, gyda'r pwyslais sydd yno ar ddysgu drwy chwarae.

39. Bydd hefyd angen ystyried sut mae sicrhau'r adnoddau priodol newydd yn y Gymraeg ar gyfer y broses o ddysgu sy'n dibynnu'n fwy helaeth ar dechnoleg. Felly bydd angen cynorthwyo ysgolion i ddeall yn well sut i osod y gyfundrefn Gymraeg o fewn y drefniadaeth newydd hon.

40. Fel rhan o'r broses o greu'r Cwricwlwm newydd bydd bil newydd yn cael ei gyhoeddi maes o law. Fel rhan o'r cynllunio ar gyfer hynny, rhaid sicrhau bod

y diffiniadau newydd ar gyfer addysg Gymraeg yn rhan o'r Bil hwnnw os yw addysg Gymraeg a dwyieithog yn mynd i dyfu a ffynnu.

**Pam fod angen gwell diffiniad o natur addysg Gymraeg ar hyn o bryd**

41. Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* yn gosod targedau yn eu lle sy'n golygu y bydd yn rhaid mynd i'r afael â mireinio'r dulliau presennol o gynllunio a darparu ar gyfer addysg Gymraeg yng Nghymru. Nodwyd hyn yn glir yn Adolygiad Brys o'r CSGA gan Aled Roberts, gan y *Bwrdd Cynghori ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA),* ac yn y sgyrsiau anffurfiol a gafwyd wrth drafod y categorïau drafft gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol.

42. Nodwyd fod angen i'r Llywodraeth:

- fabwysiadu'n llawn y broses o gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog yng Nghymru
- Agor pennawd newydd o arbrofi gydag Addysg Gymraeg a Dwyieithog
- Adeiladu ar y llwyddiant a fu a chynnig cyfleoedd i ragor o ddisgyblion fod yn siaradwyr rhugl yn y Gymraeg
- Gweld a oes modelau y gellid eu datblygu o'r newydd o ystyried y gwersi a ddysgwyd yng Ngorllewin Cymru wrth ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn cymunedau mwy Cymraeg eu hiaith.
- Arwain ar amlinellu'r ddarpariaeth gan fod yn rhagweithiol wrth gynnig y dewis
- Cynnig cyfle a rheswm i ysgolion symud ar hyd continwwm datblygol o ran y Gymraeg
- Yn nwyrain Cymru hyrwyddo'r symud at sefyllfa lle mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn ddewis realistig i bawb gan sicrhau nad yw'r daith i'r ddarpariaeth yn rheswm dros beidio â manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael.
- Sefydlu patrwm cenedlaethol o ddarpariaeth sy'n syml ac eglur i rieni ac sy'n gyson ar draws Cymru.

Wrth wneud hyn, a symud yr agenda yn ei blaen, pwysleisiwyd yr angen am ddiffinio'n well y strwythurau sy'n darparu gwahanol fodelau o addysg Gymraeg a dwyieithog gan osod diffiniadau sy'n

- Achosi i ysgolion feddwl o'r newydd am eu perthynas â'r Gymraeg a sut y gellir datblygu'r berthynas honno er lles y disgyblion
- Defnyddio'r datblygiadau arloesol ledled Cymru i annog ac ysbrydoli eraill i gynyddu eu darpariaeth Cymraeg a dwyieithog
- Sicrhau'r gefnogaeth orau i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg
- Cefnogi gwaith yr awdurdodau lleol wrth gynnig cynlluniau arbrofol fel rhan o'u CSGA diwygiedig

**Y sail gyfreithiol  bresennol o ran disgrifio addysg Gymraeg**

43. Y sail gyfreithiol ar gyfer diffinio beth yw ysgol Gymraeg yw cymal yn Neddf Addysg 2002. O dan Adran 105 (7) y Ddeddf honno 'ysgol Gymraeg' yw ysgol lle yr
*'Addysgir mwy na hanner y pynciau canlynol yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg –*

    *(a) Addysg grefyddol, a*

    *(b) Pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg sy'n bynciau sylfaen mewn perthynas â disgyblion yn yr ysgol '*

Er mwyn gweithredu'r Cwricwlwm newydd a chyflawni uchelgais *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* ynghyd â bwriadau'r CSGA newydd, bydd angen sefydlu rheoliadau diwygiedig yn eu lle a fydd yn fwy perthnasol i'r cyd-destun addysgol ac ieithyddol newydd.

44. Yn ogystal â'r diffiniad cyfreithiol uchod , ceir disgrifiadau mwy manwl o'r ddarpariaeth ac addysg Gymraeg yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007).* Bwriad y ddogfen hon oedd ceisio gosod mwy o drefn ar y gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog. Nodir yn glir ar ddechrau'r cyhoeddiad mai **dogfen wybodaeth yw hon** sydd '*yn nodi'r categorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel cyfrwng addysgu a busnes arferol yr ysgol*'. Aiff y ddogfen ymlaen i bwysleisio: '***Er nad oes unrhyw sail gyfreithiol i'r diffiniadau****, eu diben yw rhoi gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch i ba raddau mae disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*' Pwysleisir hefyd mai prif bwrpas y ddogfen yw at ddibenion casglu ystadegau a nodir pa bryd y bydd Llywodraeth Cymru yn casglu'r data o dan y penawdau hyn am y tro cyntaf. Nodir hefyd y dylid cynnwys y diffiniadau hyn ym mhrosbectws pob ysgol.

45. Gyda'r ddogfen ***Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)***, cafwyd, am y tro cyntaf, ymgais gan Lywodraeth Cymru i osod cyfeiriad pwrpasol a defnyddiol i'r gwaith o lunio diffiniadau o ran beth yw ysgol Gymraeg neu ddwyieithog, neu beth yw'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Saesneg. Nid oedd yn ddogfen bolisi nac yn statudol, ond fe gafwyd ymgais i osod trefn ar hyn nas gosodwyd mewn unrhyw drefn cynt. Bu'r ymgais hon at osod ac adnabod trefn yn gynsail da ar gyfer y gwaith o lunio'r *Strategaeth Addysg cyfrwng Gymraeg(2010)* blwyddyn neu ddwy'n ddiweddarach.

**Yn ôl canllawiau a gyflwynir yn *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (2007), mae ysgolion cynradd yn perthyn i un o'r pum grŵp isod:**

**Ysgolion cyfrwng Cymraeg**

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae o leiaf 70% o'r addysg yng Nghyfnod Allweddol 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ysgolion dwy ffrwd**

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn bodoli ochr yn ochr fwy neu lai.

**Ysgolion trawsnewidiol: Cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg**

Caiff disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddir y ddwy iaith i addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond gyda mwy o bwyslais ar y Gymraeg, fel y caiff ei defnyddio i addysgu dros 50%, a hyd at 70% o'r cwricwlwm.

**Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

Addysgir yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn y ddwy iaith, gyda mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg i addysgu rhwng 20-50% o'r cwricwlwm yn gyffredinol.

**Ysgolion cyfrwng Saesneg**

Addysgir yn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Saesneg. Saesneg yw'r prif gyfrwng ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 hefyd, ond dysgir y Gymraeg fel ail iaith, ac efallai y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu haddysgu yn Gymraeg.

**Mae ysgolion uwchradd yn perthyn i un o'r pedwar grŵp isod**

**Ysgolion cyfrwng Cymraeg**

Addysgir pob pwnc, heblaw Saesneg, drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ysgolion dwyieithog**

Mae pedair isadran i'r categori hwn yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac a oes yr un ddarpariaeth yn Saesneg ai peidio.

**Math A**: addysgir o leiaf 80% o'r pynciau, ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Caiff un neu ddau o bynciau eu haddysgu i rai disgyblion yn Saesneg neu yn y ddwy iaith.

**Math B**: addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg, ond fe'u haddysgir hefyd drwy gyfrwng y Saesneg.

**Math C**: addysgir 50-79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg, ond fe'u haddysgir hefyd drwy gyfrwng y Saesneg.

**Math Ch**: addysgir pob pwnc, ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg, i bob disgybl gan ddefnyddio'r ddwy iaith.

**Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

Defnyddir y ddwy iaith i addysgu, gyda 20-49% o'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd fel arfer.

**Ysgolion cyfrwng Saesneg**

Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ac addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at Gyfnod Allweddol 4.

**Cryfder a gwendidau diffiniadau 2007**

46. Fel y nodir ar ddechrau'r ddogfen *Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg,* dogfen wybodaeth yw hi a phrif bwrpas y ddogfen yw defnyddio'r diffiniadau at ddibenion ystadegol a bydd '*angen i ysgolion ddefnyddio'r diffiniadau newydd a phenderfynu i ba gategori y maent yn perthyn wrth lenwi ffurflenni ystadegol'*

Aiff y rhagair yn ei blaen i nodi hefyd fod y:

*'categorïau yn gwbl annibynnol ar ei gilydd ac yn rhai y gellir eu cymhwyso mewn ffordd gyson ledled Cymru'*

**Cryfderau'r diffiniadau presennol**

- Prif gryfder y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* yw ei bod hi am y tro cyntaf yn cynnig diffiniadau ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a hynny ar lefel genedlaethol. Drwy wneud hyn, mae'r ddogfen wedi gosod trefn a strwythur yn ei lle y mae'n bosibl adeiladu arni. Gwelwyd pwysigrwydd rhoi trefn mewn sefyllfa a lle nad oedd cysondeb o ran terminoleg na strwythurau.
- Ceisiwyd sicrhau cysondeb o ran terminoleg, gan gynnig penawdau digon clir wrth ddiffinio'r gwahanol gategorïau. Dilëwyd y term ysgol benodedig Gymraeg gan gwmpasu 'r holl ysgolion a oedd yn dilyn yr un patrymau wrth gyflwyno'r Gymraeg fel iaith gyntaf o dan yr un pennawd sef Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg. Gwnaethpwyd hyn gan nad oedd unrhyw gynsail i'r term 'penodedig' mewn cyfraith nac unrhyw reoliadau.
- Yn yr uwchradd cafwyd ymgais i osod trefn mewn sefyllfa lle nad oedd llawer o drefn o gwbl ond efallai mai canlyniad hyn oedd cofnodi'r anhrefn yn hytrach na'i dacluso a'i egluro.
- Un cryfder mawr wrth edrych ar y diffiniadau heddiw yw eu bod wedi mynd ati i geisio gwneud mwy na diffinio'r ysgolion yn unig. Ceisiwyd gosod hefyd beth ddylai

fod ethos ieithyddol yr ysgolion o fewn y gwahanol gategorïau gan osod her i lawer o ysgolion yn y cyd-destun hwn.

- Yn ogystal â nodi natur ethos ysgolion, ac efallai'n fwy pellgyrhaeddol, nodwyd am y tro cyntaf beth fyddai'r deilliannau tebygol i ddisgyblion o fynychu'r gwahanol ddarpariaethau ieithyddol a beth y gellid ei ddisgwyl o ran sgiliau disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pwysleisir yn y ddogfen fod disgwyl i bob disgybl, ym mhob categori, gyrraedd y safonau disgwyliedig mewn Saesneg. Nodwyd bod disgyblion sydd wedi derbyn addysg gynradd yn y Gymraeg yn cyrraedd y safonau disgwyliedig yn y ddwy iaith ac yn medru parhau ag addysg Gymraeg yn y sector uwchradd.
- Yn sgil cyhoeddi'r ddogfen, fe ddaeth hi'n haws i Lywodraeth Cymru fonitro'r ddarpariaeth ieithyddol amrywiol gan fedru casglu data a oedd yn gyson ar draws y gwahanol gategorïau a hynny ar sail y mewnbwn ieithyddol priodol. Dros gyfnod o amser llwyddwyd i gasglu data a chyflwyno ystadegau a oedd yn fwy cywir a dibynadwy.

**Gwendidau'r diffiniadau presennol**

- Prif wendid y diffiniadau newydd oedd nad oeddynt yn rhai statudol ac o'r herwydd nid oedd rheidrwydd i awdurdodau addysg gymryd rhyw lawer o sylw ohonynt. Er hynny, gwelwyd rhai siroedd yn gwneud defnydd sylweddol o'r diffiniadau newydd gan eu gosod yn ganolog o fewn eu diffiniadau eu hunain.
- Am resymau lleol penderfynodd rhai awdurdodau eu hanwybyddu gan gadw at eu terminoleg eu hunain wrth ddisgrifio'r ddarpariaeth. Felly i raddau parhaodd yr un dryswch a oedd yn bod cynt.
- Gan nad oedd y diffiniadau'n rhai statudol, ac mai mater o gyflwyno gwybodaeth at ddibenion casglu data'n fwy na dim oedd nod y diffiniadau newydd yng ngolwg y Llywodraeth, ni chafwyd ymgais i fynd ati i esbonio'n gyhoeddus na marchnata'r gwahanol gategorïau. Byddai ymgyrch farchnata neu wybodaeth wedi bod o fudd i gynyddu ymwybyddiaeth rhieni o natur y gyfundrefn ei hun ac o'r gwahanol ddeilliannau y gellid bod wedi eu disgwyl wrth ddewis y gwahanol opsiynau.
- Fe ofynnwyd i bob awdurdod nodi'r gwahanol gategorïau yn llawlyfrau'r ysgolion ond prin fu dylanwad hynny, ar wahân i gyfnodau pan fyddai anghydfod yn codi, a hynny'n benodol yn y sector uwchradd.
- Yn gyffredinol, eu hanwybyddu a gafodd y diffiniadau newydd. Gwelwyd peth cyfeirio atynt wrth ad-drefnu ysgolion mewn rhai ardaloedd yn ne Orllewin Cymru. Yn nwyrain Sir Gar cafwyd dadleuon ynghylch a ddylai ysgol uwchradd fod yng nghategori 2a neu 2b. Gwelwyd cyndynrwydd hefyd mewn rhai achosion i symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol gan osod ysgolion a ddylai fod yn gallu cyflawni hyd at lefel categori 2a yn y categori 2b.
- Un o brif wendidau'r diffiniadau oedd na ddefnyddiwyd y diffiniadau'n eu cyfanrwydd ar gyfer y broses gynllunio gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol nac ychwaith gan Lywodraeth ganol.
- Canlyniad hyn oedd mai cyfyng fu dylanwad y ddogfen o ran symud yr holl gyfundrefn yn ei blaen. Mewn gwirionedd, o gyplysu'r ddogfen hon â'r ddogfen

*Cynllun Trefniadaeth Ysgolion (gweler isod)*, gwnaethpwyd y dasg o gynllunio datblygiad addysg Gymraeg yn anos o lawer.

- Fel rhan o'r broses o greu'r diffiniadau gwreiddiol, ni roddwyd ystyriaeth i gynnwys rhieni yn y broses o'u creu ac felly, er gwaetha'r ffaith fod diffiniadau ar gael, nid oedd rhieni yn gyffredinol yn gwybod llawer amdanynt ac yn sicr heb gael esboniad o'u cynnwys. Er hynny, gwnaeth rhai siroedd megis Dinbych a Chonwy waith clodwiw o ddehongli'r diffiniadau i rieni ac fe wnaeth hyn y diffiniadau yn llawer mwy hygyrch a dealladwy.
- Yn gyffredinol, er bod cyhoeddi 'r diffiniadau yn 2007 yn gam pwysig a sylweddol ymlaen, ni wreiddiodd y diffiniadau yn y disgwrs cenedlaethol wrth drafod ffurf a threfn addysg yng Nghymru o ran natur ieithyddol y ddarpariaeth. Y broblem sylfaenol oedd nad oedd neb wedi perchnogi'r diffiniadau ac roedd y Llywodraeth ei hun mor euog â neb yn y cyd-destun hwn.
- Wedi cyflwyno'r diffiniadau, nodwyd mai tasg yr ysgolion oedd penderfynu, yn unol â'r diffiniadau, i ba gategori roeddynt yn perthyn. Collwyd cyfle yn y fan honno mewn gwirionedd. Petai'r awdurdodau addysg lleol wedi cael y cyfrifoldeb o osod yr ysgolion yn y categorïau perthnasol, gellid bod wedi herio rhai ysgolion i ymuno â chategori a oedd yn darparu rhagor o Gymraeg neu hyd yn oed eu cynnwys o dan y pennawd ysgol trawsnewidiol. Byddai hynny'n sicr o fod wedi ysgogi mwy o dwf a datblygiad o fewn y gyfundrefn addysg gyfan nag a gafwyd.

Felly dadansoddol nid datblygol oedd diffiniadau 2007. Rhoddodd y diffiniadau rywfaint o drefn ar system oedd eisoes mewn bodolaeth. Ond i rhelyw o awdurdodau lleol cadw at eu disgrifiadau sirol oedd y drefn a oroesodd

**Cod Trefniadaeth Ysgolion (Fersiwn Diwygiedig 2018)**

47. Wrth ystyried datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion, un ddogfen fydd angen sylw yw'r Cod trefniadaeth ysgolion. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cod Trefniadaeth Ysgolion* yn 2013 a'i ddiwygio yn 2018. Yn y ddogfen hon, mae cyfeirio at y rheoliadau ynghylch newid cyfrwng dysgu a phryd mae'n rhaid mynd ati i ymgynghori yn eu cylch. Mae'r rheoliadau hyn wedi peri bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn gyndyn o fynd drwy'r broses o ymgynghori gan ei bod yn gallu bod yn broses gynhennus a hirfaith.

Nodir isod y rhannau perthnasol o'r Cod

***Trosolwg***

*Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn gosod gofynion y bydd angen i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â hwy. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol dalu sylw iddynt, ac mae'n nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion, a chan y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion*.

***1.12 (t16)Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth***

*Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau penodol canlynol:*

- *i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol gan yr awdurdod addysg lleol drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg yn fwy neu'n llai na'r galw neu'r galw a ragwelir gan rieni ar gyfer darpariaeth o'r fath, a chyfraniad y cynnig at unioni'r sefyllfa honno.*

- *i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdod lleol.*

**2.3 (t22-23)**

***Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol, ac ysgolion arbennig cymunedol........***

*newid cyfrwng addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn grŵp neu grwpiau oedran (gan gynnwys disgyblion meithrin) mewn ysgol gynradd (neu addysg gynradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) o fod y perthyn i'r disgrifiad yng ngholofn 1 o'r tabl isod i fod yn perthyn i'r disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.*

| Colofn 1 | Colofn 2 |
|---|---|
| Gwneir o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. | Cynnydd neu ostyngiad o fwy nag 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwneir o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd neu ostyngiad o fwy nag 20% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, a gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Gwneir mwy nag 80% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu a wneir drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Gwneir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Gwneir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. |
| Gwneir rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ni wneir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |

- *newid cyfrwng addysgu disgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol uwchradd (neu addysg uwchradd mewn perthynas ag ysgolion canol neu ysgolion arbennig) o fod yn perthyn i'r disgrifiad yng ngholofn 1 o'r tabl isod i fod yn perthyn i'r disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.*

| Colofn 1 | Colofn 2 |
|---|---|
| Addysgir pum pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. | Gostyngiad o bedwar pwnc perthnasol neu fwy a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pum pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. | Gostyngiad o bedwar pwnc perthnasol neu fwy a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion. | Addysgir tri phwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i'r holl ddisgyblion. | Addysgir tri phwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir un pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgyblion. |
| Addysgir un pwnc perthnasol neu fwy (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgyblion. |

*(Diffinnir pynciau perthnasol fel unrhyw bynciau ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir mewn ysgol.)*

48. Wrth ail edrych ar ddiffinio ysgolion a'u darpariaethau yn y Gymraeg, bydd angen ail edrych ar eiriad y Cod hwn gan fod y geiriad fel mae'n sefyll yn ei gwneud hi'n anodd symud ysgolion mewn dull ymarferol a synhwyrol ar hyd y continwwm ieithyddol. Bydd angen diwygio'r Cod i hyn ddigwydd, gan ystyried gosod dull llawer symlach a chliriach nad yw'n llesteirio dysgu rhagor trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall y Cod, fel ag y mae, beri cryn anghydfod mewn cymunedau ac anawsterau i awdurdodau wrth iddynt gyflawni eu rôl o ran sicrhau fod y ddarpariaeth addysgol briodol ar gael.

49. Felly o edrych at y targedau uchelgeisiol sydd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* mae'n amlwg fod angen edrych yn fawl ar y diffiniadau o'r categorïau presennol a'r amodau o ran ymgynghori ar newid cyfrwng dysgu. Bydd angen diwygio cynnwys y dogfennau *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* a'r *Cod Trefniadaeth ysgolion* er mwyn annog rhagor o ysgolion i fynd ati mewn dull creadigol i gyflwyno mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

50. Cyn llunio rheoliadau 2013, roedd cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei yrru gan Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010. Roedd y strategaeth honno yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2010 a 2015. Roedd y Cynlluniau'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar gynnydd yn erbyn deilliannau targedau cenedlaethol strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg 2010.

51. Bellach cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar osod rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2-019) a thu hwnt gyda'r bwriad o osod y rheoliadau o flaen y Cynulliad yn Rhagfyr 2019. Y prif newidiadau arfaethedig yw y bydd y cynlluniau yn para bellach am 10 mlynedd ac y bydd pob awdurdod lleol yn cytuno targedau o'r newydd gyda'r Llywodraeth ar gyfer y cyfnod estynedig hwn. Bydd hyn yn arwain at well cynllunio strategol dros gyfnod hwy sy'n llawer mwy ymarferol yn nhermau addysgol a chynllunio ieithyddol. Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn mae'r rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 wedi eu gosod ac fe ddônt yn weithredol o Ionawr 2020 ymlaen.

## Diffiniadau Diwygiedig Drafft

52. Wrth ystyried y cyd-destun addysgol ac ieithyddol presennol, ac yn sgil trafodaethau gydag arbenigwyr yn y maes yn ogystal â rhan-ddeiliaid o fewn yr awdurdodau addysg, mabwysiadwyd yr egwyddorion canlynol wrth lunio diffiniadau drafft i'w cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

- Sicrhau diffiniadau a fyddai'n medru cael eu defnyddio i ddisgrifio sefyllfa ieithyddol pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Llunio diffiniadau syml a chlir.
- Cyflwyno diffiniadau a fyddai'n sicrhau fod rhieni a llywodraethwyr ysgolion, athrawon, penaethiaid ac awdurdodau lleol yn deall yn rhwydd natur yr hyn fyddai'n cael ei ddarparu ganddynt neu ar eu cyfer.
- Llunio diffiniadau a fyddai'n cynorthwyo yn y broses o ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog o fewn y gyfundrefn addysg ac yn hwyluso ysgolion wrth iddynt deithio ar eu taith ieithyddol.

- Wrth lunio polisïau'n lleol, byddai awdurdodau lleol yn gweld y drefn newydd o ddiffinio ysgolion yn gaffaeliad i'w prosesau cynllunio ac yn hawdd i'w mabwysiadu.
- O ran symudoledd poblogaeth, sicrhau rhestr o ddiffiniadau cyson ar draws Cymru er mwyn gwneud y broses o sicrhau'r dilyniant /neu'r dilyniant priodol, un ai i bobl sy'n symud o fewn Cymru neu i bobl sy'n dod yma o'r tu allan i Gymru, yn llawer haws a symlach.
- Sicrhau diffiniadau newydd a fyddai'n hawdd i'w deall wrth esbonio natur lled unigryw Cymru i rieni newydd a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Llunio diffiniadau syml sy'n egluro'r ddarpariaeth mewn modd cwbl ddealladwy gan gynnig nifer cyfyngedig iawn o gategorïau a thrwy hynny ennill ymrwymiad i'r drefn newydd.
- Llunio trefn a fyddai'n hwyluso'r broses o symud ysgol o un categori i'r llall ac yn sgil hynny medru mesur llwyddiant y gwahanol gategorïau.

**Y gwaith paratoadol cyn llunio'r categorïau newydd drafft**

53. Penderfynwyd edrych ar ystod o wahanol ddulliau o gategoreiddio gan wneud hynny o sawl cyfeiriad, gan:

- Werthuso'r diffiniadau presennol a nodi eu cryfderau a'u gwendidau.
- Dadansoddi'r data sy'n cael ei gynnwys yn PLASC, gan ystyried a oedd gwahanol fathau o ysgolion cynradd ac uwchradd yn clystyru at ei gilydd wrth ddefnyddio rhai meini prawf ieithyddol amrywiol wrth ddadansoddi'r data.
- Cynnull grŵp bach o arbenigwyr i roi cyngor manwl ar ddiffinio ysgolion.
- Trafod yn anffurfiol gyda nifer o arbenigwyr eraill yn y maes ynghyd â detholiad o swyddogion addysg mewn awdurdodau lleol, a gweld beth oedd eu hymateb i gategorïau posibl a pha awgrymiadau oedd ganddynt i wella a mireinio'r gyfundrefn. Drwy eu holi gellid hefyd fesur a oedd awydd yn lleol i weld newid yn digwydd a beth fyddai manteision ac anfanteision unrhyw newidiadau.
- Ymgysylltu'n agos gyda staff y Llywodraeth sy'n delio a datblygiad y Cwricwlwm Newydd er mwyn gweld beth fyddai effaith y Cwricwlwm diwygiedig ar strwythurau'r gyfundrefn bresennol.
- Edrych i weld a oedd unrhyw gymuned ieithyddol arall y tu allan i Gymru wedi delio â chategoreiddio ysgolion mewn sefyllfa lle'r oedd dwyieithrwydd neu amlieithrwydd yn ffactorau pwysig

**Diffiniadau yn ôl y ddarpariaeth Gymraeg**

54. Wrth lunio'r diffiniadau glynwyd at yr egwyddorion y dylai'r diffiniadau diwygiedig fod yn syml, yn eglur ac yn hawdd i'w disgrifio a'u deall ac yn gyfyngedig o ran nifer.

**Nifer y categorïau**

55. Ar gyfer y strwythurau diwygiedig cynigir y dylid crynhoi'r ddarpariaeth Gymraeg a Saesneg i dri chategori yn y cynradd a thri chategori yn yr uwchradd. Er mai'r un nifer o gategorïau a argymhellir ar gyfer y ddwy sector, nid ydynt yn cyfateb yn llwyr i'w gilydd oherwydd bod strwythur trefnu'r ddarpariaeth addysgol a phatrymau dilyniant rhywfaint yn wahanol yn y ddwy sector. Byddai cael tri chategori yn unig yn arwain at sefyllfa lle mae esbonio'r ddarpariaeth yn haws, ac yn fwy dealladwy i rieni a Llywodraethwyr ysgolion. Mae hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y dadansoddiad a wnaed o ran y data yn PLASC sy'n adlewyrchu'r ffaith bod ysgolion Cymru'n fras yn disgyn i dri grŵp.

**Y derminoleg a ddefnyddir wrth ddisgrifio'r categorïau newydd hyn.**

56. Oherwydd bod y gyfundrefn ar gyfer addysg Gymraeg wedi datblygu dros gyfnod eithaf sylweddol o amser a than ddylanwad nifer o ffactorau, nid oes cysondeb cyffredinol wedi bod o ran y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r ddarpariaeth. Mae hyn yn amrywio o'r termau a ddefnyddir yn Neddf Addysg 2002, i'r diffiniadau a geir yn y ddogfen wybodaeth *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)*, i'r termau a ddefnyddir gan awdurdodau unigol. Gan nad oedd diffiniadau llawn a swyddogol, tyfodd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch beth yn union oedd 'Ysgol Gymraeg' neu 'Ysgol ddwyieithog' neu 'Ysgol Dwy ffrwd'. Cred rhai rhieni, er enghraifft, fod yn rhaid siarad Cymraeg i gael mynediad i'r rhain a dangosodd gwaith diweddar fod carfan o'r gymdeithas yn meddwl mai ysgolion preifat oedd y rhain a bod rhai talu i gael mynediad.

57. Felly, er mwyn goresgyn rhai o'r camddehongliadau hyn, argymhellir defnyddio termau mwy niwtral wrth ddisgrifio'r ddarpariaeth gan ddefnyddio'r termau Categori 1, 2 a 3 i'w disgrifio. Gellid wrth gwrs ddefnyddio llythrennau i wneud yr un dasg megis, A, B neu C, neu hyd yn oed ddefnyddio llythrennau gair tair llythyren megis TWF i'r un perwyl. Prif fantais defnyddio rhifau yw bod cyfrif i dri yn y ddwy iaith yn hawdd i bawb. Yr anfantais wrth gwrs yw bod gwerthoedd ynghlwm wrth rifau. Diddorol yw sylwi fod y Basgiaid wedi defnyddio'r llythyren A ar gyfer ysgolion Sbaeneg yn bennaf a D ar gyfer ysgolion Basgeg yn bennaf a B ar gyfer y model sy'n defnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal wrth addysgu.

58. O fabwysiadu'r dull hwn wrth gategoreiddio, byddai'n rhaid trefnu bod ymgyrch farchnata neu rannu gwybodaeth yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau fod rhieni a darpar- rieni'n gyfarwydd gydag ystyr a goblygiadau'r derminoleg newydd. Byddai hwn hefyd

yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael.

59. Wrth gategoreiddio'r ddarpariaeth yn y dull hwn, y bwriad yn y sector cynradd fyddai categoreiddio'r ddarpariaeth yn hytrach na chategoreiddio ysgolion cyfan. Gellid felly cael mwy nag un categori o fewn un ysgol. Gallai ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Saesneg yn bennaf mewn un ffrwd ac addysg yn bennaf yn y Gymraeg mewn ffrwd arall, felly fod yn ysgol Categori 1 a Chategori 3. Byddai dealltwriaeth o'r categorïau'n sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir yno yn glir i rieni a darpar rieni. Gellid hefyd gweld sefyllfa'n datblygu lle mae ysgolion dwy ffrwd gyfartal yn cynnig un ffrwd cyfrwng Saesneg yn bennaf ac un ffrwd ddwyieithog neu ffrwd Cymraeg yn bennaf.

## Categorïau a Diffiniadau Drafft

Nodir isod y fframwaith drafft ar gyfer trefn newydd o gategoreiddio ysgolion ar sail y ddarpariaeth ieithyddol. **Yn ogystal â'r diffiniadau drafft, ceir darn byr o destun sy'n nodi beth yw *'Iaith yr Ysgol'* a *'Beth gall rhieni ei ddisgwyl'*. Testunau enghreifftiol yw'r rhain a bydd, o reidrwydd, angen eu gwirio a'u golygu. I'r perwyl hynny, nodir y testunau hyn mewn italig.**

## Sector Cynradd

### Categori 1

- Bydd disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf yn Saesneg, a hynny o fewn y rhychwant amser 80%-90% Saesneg a 10%-20% Cymraeg.
- Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Gall ysgolion ddysgu rhai agweddau ar y meysydd dysgu a phrofiad sydd y tu allan i'r maes ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng y dysgu, yn unol â chynllun datblygu'r ysgol a CSGA yr awdurdod lleol.
- Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed.

### Iaith yr ysgol

- Saesneg yw iaith gyfathrebu'r ysgol ar lefel ddyddiol.
- Er mwyn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol y disgyblion defnyddir rhywfaint o Gymraeg fel iaith achlysurol ac fel cyfrwng dysgu mewn rhai agweddau ar y cwricwlwm.

**Beth gall rhieni ei ddisgwyl?**

- Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.
- Bydd eich plentyn yn medru siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd a phersonol, gan gynnal sgwrs syml a mynegi barn a rhoi rhesymau byr.
- Bydd eich plentyn yn gallu defnyddio'r eirfa a'r termau ar gyfer y meysydd hynny y bydd wedi eu trafod yn y Gymraeg.
- Y disgwyliad arferol yw y bydd eich plentyn yn trosglwyddo i ysgol uwchradd Categori 1 neu 2 ac yn parhau i ddysgu'n bennaf trwy'r Saesneg ond gan hefyd barhau i ddysgu'r Gymraeg a dilyn rhai elfennau o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo hynny'n briodol.

## Categori 2

- Bydd y disgyblion yn cael eu dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhoddir amser tebyg i ddysgu yn y ddwy iaith.
- Yn gyffredinol, caiff y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn Gymraeg eu profi yn y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Saesneg eu profi yn y Saesneg.
- Cyflwynir llawer o dermau cyffredin ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad a gyflwynir yn y ddwy iaith.

**Iaith yr ysgol**

- Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg yn yr ysgol a'r Gymraeg fydd iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.
- Defnyddir y naill iaith a'r llall i sicrhau dealltwriaeth pan fo angen hynny.
- Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn naill ai y Gymraeg neu'r Saesneg fel y bo'n briodol

**Beth gall rhieni ei ddisgwyl?**

- Bydd eich plentyn yn gallu siarad, gwrando ,darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.
- Bydd eich plentyn yn medru siarad Cymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd gan fynegi barn yn glir a syml.
- Bydd gan eich plentyn eirfa eang a sgiliau sylfaenol da i barhau ag elfennau o'i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Uwchradd.
- Bydd plant sy'n derbyn addysg yn ysgolion Categori 2 yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ysgolion uwchradd sy'n darparu mewn dwy iaith.
- Mae patrwm datblygiad ieithyddol plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng dwy iaith rhywfaint yn wahanol i blant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng un iaith, ond erbyn

bod plant yn 11 oed mae sgiliau iaith yn y categori hwn yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Saesneg ac yn rhugl ar lafar yn y Gymraeg.

## Categori 3

- Bydd disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf yn Gymraeg.
- Hyd at 7 oed, dysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg trwy ddulliau addysg drochi neu ddysgu fel iaith gyntaf.
- Rhwng 7-11 oed cyflwynir y Saesneg fel iaith ac o bosibl fel cyfrwng ar gyfer rhai elfennau o'r cwricwlwm. ( O ran amser oddeutu 80% Cymraeg a 20% Saesneg)
- Asesir y disgyblion yn bennaf yn y Gymraeg gyda pheth asesu yn y Saesneg fel bo'n briodol.
- Cyflwynir termau cyffredin yn y meysydd dysgu a phrofiad yn y ddwy iaith.
- Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed.

### Iaith yr ysgol

- Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.
- Defnyddir Saesneg ar adegau i sicrhau dealltwriaeth yn benodol yn ystod y cyfnod cynnar o addysg drochi.
- Cymraeg yw 'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol.
- Bydd pwyslais cryf ar greu ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn cyfathrebu gyda'r rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg

### Beth gall rhieni ei ddisgwyl?

- Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.
- Bydd eich plentyn hefyd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn unol ag oed a gallu.
- Bydd eich plentyn yn gallu symud yn hyderus o un iaith i'r llall gan ddefnyddio'r sgil o drawsieithu'n rhwydd o fewn cylch ei waith yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.
- Y disgwyliad arferol yw bod disgyblion, beth bynnag fo iaith y cartref yn gallu trosglwyddo'n hawdd i'r ddarpariaeth uwchradd sy'n cynnig meysydd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae patrwm datblygiad ieithyddol plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng dwy iaith ac sy'n dilyn rhaglen drochi rhywfaint yn wahanol i blant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng un iaith, ond erbyn bod plant yn 11 oed mae sgiliau iaith mewn addysg ddwyieithog yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol a chyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg

**Cyfnodau Trawsnewidiol**

- Un o'r rhesymau dros gyflwyno system ddiwygiedig yn ei lle ar gyfer diffinio'r ddarpariaeth ieithyddol o fewn ysgolion yng Nghymru yw er mwyn **gosod trefn sy'n annog ac yn hwyluso'r broses o symud ysgolion ar hyd continwwm iaith**. Daw'r cymhelliad polisi ar gyfer hyrwyddo'r datblygiad hwn o'r weledigaeth a amlinellir yn nogfen bolisi'r Llywodraeth ***Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr y Gymraeg***. Er mwyn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ac ysgolion gynllunio ar gyfer hwyluso'r broses hon o symud ar hyd y continwwm iaith, argymhellir bod dau is-gategori trosiannol yn cael eu creu fel categorïau pontio. Byddai'r cyfnodau trosiannol hyn yn cynnig elfen o hyblygrwydd datblygol i ysgolion fel bod modd iddynt arbrofi a chynllunio eu llwybr eu hunain wrth newid categori ieithyddol yr ysgol. Cynigir bod y cyfnod trosiannol cyntaf yn cael ei gynnig ar gyfer ysgolion sy'n dymuno symud o Gategori 1 i 2 neu 3. Byddai'r ail gyfnod trosiannol yn pontio rhwng ysgolion categori 2 a chategori 3.

- Ni fyddai'r cyfnodau trosiannol hyn yn gategorïau parhaol. Byddai'r cyfnodau trosiannol hyn yn y sector cynradd yn parhau am gyfnod o 8 mlynedd a byddent yn cael eu cytuno ar y cyd â'r awdurdod lleol. Felly'r patrwm arferol fan hyn fyddai bod yr:

- ysgolion trawsnewidiol yn cytuno cynllun trawsnewid ieithyddol gyda'r awdurdod lleol. Byddai'r cynllun hwnnw'n cwmpasu'r amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.

- byddai'r cynllun trawsnewid yn amlinellu sut y byddid yn cyflwyno'r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng yr addysgu a dysgu o fewn yr ysgol.

- byddai'r disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgolion hyn yn ymuno â grwpiau lle gwneir defnydd helaeth o ddulliau addysg drochi i ddysgu'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar

Cyn dechrau ar y broses o symud ysgol i'r cyfnod trosiannol, byddid yn ymgynghori'n llawn gyda rhieni a darpar-rieni'r ysgol, yn unol â'r rheoliadau cyfredol, ynghylch y newidiadau arfaethedig i natur cyfrwng y dysgu yn yr ysgol.

Byddai'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson/flynyddol gan yr ysgolion eu hunain, gan yr awdurdod lleol perthnasol, ynghyd â Llywodraeth Cymru wrth adolygu'r CSGA lleol.

- **Sector Uwchradd**

Argymhellir gosod ysgolion uwchradd Cymru mewn tri chategori, yr un nifer â'r sector cynradd. Ond, oherwydd bod natur ysgolion cynradd Cymru yn dra gwahanol i'r ysgolion uwchradd, nid yw'r tri chategori yn cyfateb yn union, er bod nifer o agweddau sy'n debyg.

**Categori 1**

- Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol.

**Ethos yr ysgol**

- Saesneg yw prif iaith yr ysgol ar lefel ddyddiol.
- Bydd yr ysgol yn darparu amgylchedd Gymreig gan anelu at ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg wrth gyfathrebu er mwyn cynorthwyo disgyblion i wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y meysydd dysgu ac fel iaith achlysurol yn gymdeithasol.

**Beth gall rhieni ei ddisgwyl**

- Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn eu meysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Saesneg.
- Bydd unrhyw ddisgybl sy'n dilyn y meysydd hyn yn y Gymraeg yn medru cael ei asesu yn y Gymraeg.
- Yn gyffredinol bydd pob disgybl yn gallu siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.
- Bydd disgyblion yn medru siarad peth Cymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac mewn rhai cyd-destunau pynciol gan ddefnyddio termau a geirfa pwnc-benodol yn ddibynnol ar y rhannau o'r cwricwlwm a ddysgir yn Gymraeg.

**Categori 2**

- Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod o bynciau (50%-75%) trwy gyfrwng y Gymraeg.**
- Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.
- Bydd o **leiaf 40% o ddisgyblion** 16 oed yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn **o leiaf 3 phwnc.**

## Ethos yr ysgol

- Gwneir defnydd helaeth o'r Gymraeg o fewn bywyd bob dydd yr ysgol a rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg a Chymreig.
- Defnyddir y Saesneg yn unol â chyd-destun ieithyddol yr ysgol ei hun.
- Bydd pob ysgol yn y categori hwn yn creu ei phrosbectws ieithyddol ei hun sy'n amlinellu ethos yr ysgol gan ystyried ei hamgylchedd ieithyddol a'r cydbwysedd ieithyddol ymhlith disgyblion yr ysgol.
- Defnyddir y naill iaith a'r llall wrth gyfathrebu â'r disgyblion fel bo'n briodol.

## Beth gall rhieni ei ddisgwyl

- Bydd nifer sylweddol o'r meysydd addysg a phrofiad yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Bydd canran arwyddocaol o ddisgyblion yn dilyn rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael eu hasesu yn 16 oed yn y Gymraeg.
- Bydd y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg yn gallu symud ymlaen yn hyderus i ddarpariaeth ôl 16 oed trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd plentyn sy'n dewis gwneud rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhwydd.
- Gall symud yn hyderus o'r naill iaith i'r llall ar lafar.
- Gall ddarllen amrywiaeth o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gall ysgrifennu am brofiadau personol a phrofiadau pynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Categori 3

- Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.
- Bydd **o leiaf 70% o ddisgyblion** 16 oed yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn **o leiaf 5 pwnc.**

## Ethos yr ysgol

- Cymraeg yw prif iaith yr ysgol.
- Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ar lefel o ddydd i ddydd a'r Gymraeg yw iaith weinyddol yr ysgol.
- Mae awyrgylch Gymraeg a Chymreig i natur y sefydliad.

## Beth gall rhieni ei ddisgwyl

- Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu haddysgu a'u hasesu yn y Gymraeg.
- Dysgir Saesneg a phynciau cysylltiedig yn Saesneg.

- Cynigir rhai pynciau trwy gyfrwng y Saesneg neu'n ddwyieithog wrth i'r disgyblion fynd drwy broses o ddewis eu meysydd astudio.
- Gall eich plentyn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn rhwydd.
- Gall symud o'r naill iaith i'r llall yn hyderus yn y naill iaith a'r llall ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Gall ysgrifennu am brofiadau personol a phynciol mewn un iaith yn ogystal â'u cyflwyno mewn iaith arall.

| Addysg Gynradd (Diffiniadau Drafft) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori 1**<br><br>**Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Saesneg**<br>(O fewn y rhychwant o 80%-90% Saesneg a 10% i 20% Cymraeg) | | **Categori 2**<br><br>**Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Cymraeg/Saesneg**<br>(50%Saesneg/<br>50% Cymraeg) | | **Categori 3**<br><br>**Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Cymraeg**<br>(100% Cymraeg hyd at 7 oed ac yna<br>20% Saesneg<br>80% Cymraeg<br>o 8-11 oed) |
| | ***Is-Ffrwd***<br><br>***Ysgol/ Ffrwd/ Dosbarth Trawsnewidiol***<br>*Bydd ysgol yn y categori hwn am ddim mwy nag 8 mlynedd wrth i'r ysgol weithredu cynllun i drosglwyddo i Gategori 2 (neu 3)* | | ***Is-Ffrwd***<br><br>***Ysgol/Ffrwd /Dosbarth Trawsnewidiol***<br>*Bydd ysgol yn y categori hwn am ddim mwy nag 8 mlynedd wrth i'r ysgol weithredu cynllun i drosglwyddo i Gategori 3* | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Bydd disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf yn Saesneg.<br><br>• Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ac ar draws rhai o'r meysydd dysgu a phrofiad eraill.<br><br>• Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed.<br><br>• | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Bydd y cynllun trawsnewid yn amlinellu sut fydd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n gynyddol fel cyfrwng yr addysgu a'r dysgu o fewn yr ysgol.<br><br>• Bydd disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgolion hyn yn ymuno â grwpiau lle defnyddir rhai dulliau addysg drochi i ddysgu'r Gymraeg. | • Bydd y disgyblion yn cael eu dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhoddir amser cyfartal i ddysgu a datblygu llythrennedd yn y ddwy iaith.<br><br>• Caiff y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Gymraeg eu profi yn y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Saesneg eu profi yn y Saesneg. | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Bydd y cynllun trawsnewid yn amlinellu sut fydd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel prif gyfrwng y dysgu gan ymdebygu i'r ddarpariaeth a geir mewn ysgolion Categori 3.<br><br>• Cyflwynir y Gymraeg yn unig yn ystod blynyddoedd cynnar disgybl, a hynny o ddechrau'r cyfnod o drawsnewid. | • Hyd at 7/8 oed dysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg un ai trwy ddulliau addysg drochi neu ddysgu fel mamiaith (100%).<br><br>• Rhwng 7/8-11 oed cyflwynir y Saesneg fel iaith ac fel cyfrwng ar gyfer rhai elfennau o'r cwricwlwm. Asesir y disgyblion yn bennaf yn y Gymraeg gyda pheth asesu yn y Saesneg fel bo'n briodol.<br><br>• Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed. |

| Categori ysgolion yn ôl y ddarpariaeth ieithyddol<br><br>Sector Cynradd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Iaith** | **Cwricwlwm** | **Ethos yr ysgol** | **Beth gall rhieni ei ddisgwyl** |
| **Categori 1** | **Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Saesneg**<br>(O fewn y rhychwant o 80%-90% Saesneg a 10% i 20% Cymraeg) | • Bydd disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf yn Saesneg, a hynny o fewn y rhychwant 80%-90% Saesneg a 10%-20% Cymraeg.<br><br>• Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad eraill.<br><br>• Gall ysgolion ddysgu rhai agweddau ar y meysydd dysgu a phrofiad sydd y tu allan i'r maes ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng y dysgu, yn unol â chynllun datblygu'r ysgol a CSGA yr awdurdod lleol.<br><br>• Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau | • Saesneg yw iaith gyfathrebu'r ysgol ar lefel ddyddiol.<br>• Er mwyn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol y disgyblion defnyddir rhywfaint o Gymraeg fel iaith achlysurol ac fel cyfrwng dysgu mewn rhai agweddau ar y cwricwlwm. | • Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.<br><br>• Bydd eich plentyn yn gynyddol yn medru siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd a phersonol, gan gynnal sgwrs syml a mynegi barn a rhoi rhesymau byr.<br><br>• Bydd eich plentyn yn gallu defnyddio'r eirfa a'r termau ar gyfer y meysydd hynny y bydd wedi eu trafod yn y Gymraeg.<br><br>• Y disgwyliad arferol yw y bydd eich plentyn yn trosglwyddo i ysgol uwchradd Categori 1 neu 2 ac yn parhau i ddysgu'n bennaf trwy'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed. | | Saesneg gan barhau i ddysgu'r Gymraeg a dilyn rhai elfennau o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo hynny'n briodol. |
| **Ysgol Trawsnewidiol**<br><br>**(1T)** | **Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol/ Ffrwd/ Dosbarth Trawsnewidiol** | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno Cynllun Trawsnewid gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br>• Bydd y Cynllun Trawsnewid yn amlinellu sut y bydd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n gynyddol fel cyfrwng yr addysgu o fewn yr ysgol.<br>• Bydd disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgolion hyn yn ymuno â grwpiau lle defnyddir dulliau addysg drochi i ddysgu'r Gymraeg. | | |
| **Categori 2** | **Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Ddosbarth Cymraeg/Saesneg** (50%Saesneg/ 50% Cymraeg) | • Bydd y disgyblion yn cael eu dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhoddir amser cyfartal i ddysgu yn y ddwy iaith. | • Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg yn yr ysgol a'r Gymraeg | • Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Yn gyffredinol, caiff y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn Gymraeg eu profi yn y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Saesneg eu profi yn y Saesneg.<br><br>• Cyflwynir llawer o dermau cyffredin ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad a gyflwynir yn y ddwy iaith. | fydd iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.<br><br>• Defnyddir y naill iaith a'r llall i sicrhau dealltwriaeth pan fo angen hynny.<br><br>• Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. | • Bydd eich plentyn yn medru siarad Cymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd gan fynegi barn yn glir a syml.<br><br>• Bydd gan eich plentyn eirfa eang a sgiliau sylfaenol da i barhau ag elfennau o'i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Uwchradd.<br><br>• Bydd plant sy'n derbyn addysg yn ysgolion Categori 2 yn gallu trosglwyddo'n i ysgolion uwchradd sy'n darparu mewn dwy iaith. |
| **Ysgol Trawsnewidiol**<br><br>**(2T)** | **Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol/ Ffrwd/ Dosbarth Trawsnewidiol** | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno Cynllun Trawsnewid gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Bydd y Cynllun Trawsnewid yn amlinellu sut y bydd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno fel prif gyfrwng y dysgu gan | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymdebygu i'r ddarpariaeth a geir mewn ysgolion Categori 3.<br><br>• Cyflwynir y Gymraeg yn unig yn ystod blynyddoedd cynnar disgybl o ddechrau'r cyfnod o drawsnewid. | | |
| **Categori 3** | **Ysgol/ Ffrwd/Dosbarth Cymraeg**<br>(100% Cymraeg hyd at 7 oed ac yna<br>20% Saesneg<br>80% Cymraeg<br>o 8-11 oed) | • Bydd disgyblion yn cael eu dysgu'n bennaf yn Gymraeg.<br><br>• Hyd at 7 oed, dysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg trwy ddulliau addysg drochi neu ddysgu fel iaith gyntaf.<br><br>• Rhwng 7-11 oedd cyflwynir y Saesneg fel iaith ac fel cyfrwng ar gyfer rhai elfennau o'r cwricwlwm.<br><br>• Asesir y disgyblion yn bennaf yn y Gymraeg gyda pheth asesu yn y Saesneg fel bo'n briodol.<br><br>• Cyflwynir termau cyffredin yn y meysydd dysgu a phrofiad yn y ddwy iaith. | • Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.<br><br>• Defnyddir Saesneg ar adegau i sicrhau dealltwriaeth yn benodol yn ystod y cyfnod cynnar o addysg drochi.<br><br>• Cymraeg yw 'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol.<br><br>• Bydd pwyslais cryf ar greu ethos Gymraeg a | **Beth gall rhieni ei ddisgwyl?**<br>• Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.<br><br>• Bydd eich plentyn hefyd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn unol ag oed a gallu.<br><br>• Bydd eich plentyn yn gallu symud yn hyderus o un iaith i'r llall gan ddefnyddio'r sgil o drawsieithu'n rhwydd o fewn cylch ei waith yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd disgyblion yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn 11 oed. | Chymreig yn yr ysgol.<br><br>• Bydd yr ysgol yn cyfathrebu gyda'r rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg | • Y disgwyliad arferol yw bod disgyblion, beth bynnag fo iaith y cartref yn gallu trosglwyddo'n hawdd i'r ddarpariaeth uwchradd sy'n cynnig meysydd trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Mae patrwm datblygiad ieithyddol plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng dwy iaith ac sy'n dilyn rhaglen drochi rhywfaint yn wahanol i blant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng un iaith. Erbyn bod plant yn 11 oed mae sgiliau iaith plentyn yn ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol a chyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg |

**Addysg Uwchradd** (Diffiniadau Drafft)

| **Categori 1**<br><br>**Ysgol:**<br>**Saesneg** | | **Categori 2**<br><br>**Ysgol:**<br>**Cymraeg/Saesneg/ Dwyieithog** | | **Categori 3**<br><br>**Ysgol:**<br>**Cymraeg/ Dwyieithog** |
|---|---|---|---|---|
| | **(Categori 1T)**<br>**Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol:**<br>**Dwyieithog Trawsnewidiol (Cyfnod penodedig o 6 mlynedd)** | | **(Categori 2T)**<br>**Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol:**<br>**Cymraeg/ Dwyieithog Trawsnewidiol (Cyfnod penodedig o 6 mlynedd)** | |
| • Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol. | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid.<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel pwnc a chynigir rhai | • Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod o bynciau (50%-75%) trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar | • Bydd yr ysgolion trawsnewidiol yn cytuno **Cynllun Trawsnewid** gyda'r awdurdod lleol ar yr amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer y cyfnod trawsnewid. | • Addysgir yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir pob pwnc ar wahân i Saesneg/ Llên Saesneg yn y Gymraeg**.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd/Disgwyliadau datblygol**<br>Mae cyfle datblygol o fewn y categori hwn i ysgol arbrofi gyda chynnig ychydig mwy o ddysgu cyfrwng Cymraeg er mwyn ymestyn sgiliau ieithyddol disgyblion. Yn y cyfnod datblygol hwn bydd ysgolion yn sicrhau y bydd **o leiaf 20% o ddisgyblion** yn dilyn **un maes astudio** trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16oed oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol. | pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd **o leiaf 20% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16oed oed mewn **o leiaf 3 phwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên)**.**<br><br>• Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant priodol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y | gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br>• Bydd o **leiaf 40% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 3 phwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên)**.**<br>• Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant amrywiol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y | • Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod gynyddol a helaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Dros gyfnod o 6 mlynedd **bydd y ganran o ddisgyblion** sy'n dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed **mewn o leiaf 5 pwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o | llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd **o leiaf 70% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 5 pwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên).<br><br>• Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant amrywiol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. | gellir eu hastudio hyd at 16 oed. | fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên) **yn cynyddu o 40% i 70%.**<br><br>• Disgwylir i ysgolion uwchradd ddarparu rhychwant amrywiol o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blynyddoedd cyntaf ysgolion Uwchradd fel bod dewis digonol o bynciau y gellir eu hastudio hyd at 16 oed. | |

| Categori ysgolion yn ôl y ddarpariaeth ieithyddol<br>Sector Uwchradd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Iaith** | **Cwricwlwm** | **Ethos yr ysgol** | **Beth gall rhieni ei ddisgwyl** |
| **Categori 1** | **Ysgol Saesneg** | • Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau cynnydd priodol.<br>• Mae rhywfaint cyfyngedig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn medru cael ei gynnig, (sydd fel arfer yn cynnwys dysgu'r Gymraeg fel mamiaith)<br>• Mae cyfle datblygol o fewn y categori hwn i ysgol arbrofi gyda chynnig ychydig mwy o ddysgu cyfrwng Cymraeg er mwyn ymestyn sgiliau ieithyddol disgyblion. Yn y cyfnod datblygol hwn bydd ysgolion yn sicrhau fod disgyblion yn gallu dilyn un maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16oed . | • Ar lefel ddyddiol, defnyddir y Saesneg fel iaith gyfathrebu'r ysgol<br>• Er mwyn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol y disgyblion, defnyddir rhywfaint o Gymraeg fel iaith achlysurol ac fel cyfrwng dysgu mewn rhai agweddau ar y cwricwlwm.<br>• Yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg, defnyddir agweddau eraill ar y meysydd profiad i ddangos perthnasedd y Gymraeg a Chymreictod i | • Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.<br>• Bydd eich plentyn yn medru siarad Cymraeg mewn ystod gynyddol o sefyllfaoedd cyfarwydd ag anghyfarwydd.<br>• Bydd eich plentyn yn medru defnyddio'r termau a'r eirfa sy'n perthyn i'r pynciau y bydd wedi ymhél â nhw yn yr ysgol.<br>• Bydd yn rhan fwyaf o'r meysydd dysgu a sgiliau'n cael eu hastudio yn y Saesneg.<br>• Bydd eich plentyn yn medru deall llawer o Gymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | fywyd y disgyblion.<br>• Gall yr ysgol gyfathrebu â rheini gan ddefnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg. | |
| **Ysgol Trawsnewidiol**<br><br>**(1T)** | **Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol Trawsnewidiol (Cyfnod penodedig o 6 mlynedd)** | • Addysgir y Gymraeg fel pwnc a chynigir rhai pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd **o leiaf 20% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn **o leiaf 3 phwnc** hyd at 16oed oed a heb gynnwys y Gymraeg ei hun o fewn y meysydd dysgu a phrofiad) i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori 2** | **Ysgol Cymraeg/Saesneg/ Dwyieithog** | • Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod o bynciau (50%-75%) trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd o **leiaf 40% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 3 phwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên)**.** | • Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol a'r Gymraeg, yn gyffredinol, fydd iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.<br><br>• Bydd rhywfaint o weinyddu'r ysgol yn digwydd yn y ddwy iaith.<br><br>• Defnyddir y naill iaith a'r llall i sicrhau dealltwriaeth pan fo angen hynny.<br><br>• Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. | • Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.<br><br>• Bydd eich plentyn yn medru siarad Cymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd gan fynegi barn yn glir.<br><br>• Bydd gan eich plentyn eirfa gynyddol eang a da fel y gall barhau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>• Bydd sgiliau ieithyddol eich plentyn yn y Gymraeg yn ddibynnol ar ei gyswllt gyda'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.<br><br>• O ddilyn canran arwyddocaol o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg bydd gan eich plentyn y sgiliau ieithyddol sy'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymdebygu i'r disgwyliadau yng nghategori 3 isod. Bydd felly'n gallu symud yn hyderus o'r naill iaith i'r llall mewn ystod o sefyllfaoedd gwahanol.<br><br>• O ddilyn canran o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg bydd eich plentyn yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Ysgol Trawsnewidiol**<br><br>**(2T)** | **Is-Ffrwd**<br><br>**Ysgol Cymraeg/Dwyieithog Trawsnewidiol (Cyfnod penodedig o 6 mlynedd)** | • Addysgir y Gymraeg fel pwnc a **chynigir ystod gynyddol a helaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Dros gyfnod o 6 mlynedd **bydd y ganran o** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **ddisgyblion** sy'n dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed **mewn o leiaf 5 pwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên) **yn cynyddu o 40% i 70%.** | | |
| **Categori 3** | **Ysgol Cymraeg /Dwyieithog** | • Addysgir yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir pob pwnc ar wahân i Saesneg/ Llên Saesneg yn y Gymraeg**.**<br><br>• Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob disgybl hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgyrraedd â'r camau priodol.<br><br>• Bydd **o leiaf 70% o ddisgyblion** yn dilyn maes astudio trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed mewn **o leiaf 5 pwnc** (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm cyfredol a | • Cymraeg yw prif iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.<br><br>• Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol.<br><br>• Bydd pwyslais cryf ar greu ethos Gymraeg a Chymreig yn yr ysgol.<br><br>• Bydd yr ysgol yn cyfathrebu gyda'r rhieni yn y | **Beth gall rhieni ei ddisgwyl?**<br>• Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol ag oed a gallu.<br><br>• Bydd eich plentyn hefyd yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn unol ag oed a gallu.<br><br>• Bydd eich plentyn yn gallu symud yn hyderus o un iaith i'r llall gan ddefnyddio'r sgil o drawsieithu'n rhwydd o fewn cylch ei waith yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith a/neu Llên). | Gymraeg a'r Saesneg | • Bydd amrediad y sefyllfaoedd lle y gall eich plentyn ddefnyddio'r ddwy iaith yn lledu ac yn dyfnhau<br><br>• Bydd eich plentyn yn dilyn meysydd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf tan 16 oed yn y Gymraeg<br><br>• Bydd eich plentyn yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. |

## Atodiad 1

## Argymhellion Gweithredu

60. Wrth drafod y darpar datblygiadau hyn, cynigiwyd gan nifer y cafwyd trafodaethau â hwy na ellid llunio trefn newydd o gategoreiddio ysgolion heb ystyried rhai o'r anawsterau mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddatblygu'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Nodir isod rhai awgrymiadau ac argymhellion a fyddai'n cynorthwyo'n y broses o wireddu nodau polisi Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn y flwyddyn 2050.

61. Gan mai cynllun datblygol ac arbrofol yw hwn wrth fynd ati i adolygu'r diffiniadau cyfredol a llunio categorïau newydd, da fyddai ystyried pwrpas y diffiniadau eu hunain a phryd y byddai'n briodol ail edrych ar y diffiniadau newydd a gweld a ydynt yn ffit i bwrpas.

62. Mae nod yr awgrym hwn o ail ymweld â 'r diffiniadau yn ddeublyg. Yn gyntaf, byddai er mwyn sicrhau bod y diffiniadau sy'n ymhél â sefyllfa'r Gymraeg mewn ysgolion ar draws Cymru yn parhau'n gyfredol, ac yn ail, er mwyn atgyfnerthu'r nod polisi yn *Cymraeg 2050* o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. O ran yr ail nod, o reidrwydd bydd angen ail ystyried y diffiniadau diwygiedig o fewn cyfnod penodol er mwyn gweld a ydynt wedi cynorthwyo yn y broses o symud ysgolion Cymru ar hyd continwwm ieithyddol. Mae'n dra thebygol y bydd angen addasu'r diffiniadau i fynd i'r afael â'r her gyffrous o sicrhau fod llawer iawn mwy o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf yn dod yn gynyddol abl i gynnal sgyrsiau pwrpasol a defnyddiol yn y Gymraeg.

    **Argymhellir felly y dylid cynnal adolygiad llawn o'r diffiniadau uchod o fewn degawd i weld a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol a defnyddiol.**

63. Un o brif wyrthiau'r gyfundrefn addysg Gymraeg yw gweld plant ifanc o gartrefi di-Gymraeg yn dod yn siaradwyr y Gymraeg ym mlynyddoedd cynnar ysgolion cynradd gan ddod yn rhugl ddwyieithog dros gyfnod byr o amser. Eithriadau prin iawn, erbyn hyn, yw'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg hynny nad ydynt yn darparu addysg drochi i blant yn ystod y blynyddoedd hynny. Ond gan mai twf o'r gwaelod, o ddyhead rhieni di- Gymraeg i gael addysg Gymraeg i'w plant oedd hwn ar y cyfan, ni ddatblygwyd polisi cenedlaethol yng Nghymru oedd yn mabwysiadu'r dull hwn o addysgu, gan ddatblygu polisïau cenedlaethol i nodi'r egwyddorion a'r arferion gorau y dylid eu mabwysiadu. Ychydig o hyfforddiant a gafodd athrawon tan yn ddiweddar o ran deall sut oedd cynnal dosbarth lle'r oedd proses o addysg drochi ar waith, a hynny yn ogystal â dysgu plant oedd eisoes yn siarad Cymraeg. Datblygodd nifer o arferion o gwmpas addysg drochi sydd bellach yn cael eu

hystyried yn egwyddorion sylfaenol a phwrpasol. Wrth lunio polisi a chanllaw at y dyfodol, da o beth hefyd fyddai ystyried sut orau mae strwythuro addysg drochi yn y cyfnod sylfaen lle roddir y pwyslais ar ddysgu trwy chwarae, sydd yn seiliedig ar athroniaeth sydd ychydig yn wahanol i'r dulliau a ddefnyddir mewn addysg drochi.

64. Un elfen arall mae angen ei hystyried yn ofalus iawn yw pryd mae addysg drochi'n dechrau a phryd mae'n gorffen. Mae rhagdybiaeth fod addysg drochi'n gorffen pan ddaw'r plant yn rhugl. Ond a ddylid ystyried a oes angen cynnal sgiliau ieithyddol y disgyblion mewn dull mwy systematig na hyn, yn enwedig gyda'r plant hynny nad ydynt yn cael cyswllt â'r Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol? A ddylid nodi, er enghraifft, mai buddiol fyddai i ddisgyblion barhau i dderbyn o leiaf hanner eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed os ydynt am gynnal a chadw a medru defnyddio'u sgiliau ieithyddol yn y gweithle ac yn gymdeithasol ar ôl iddynt adael yr ysgol?

65. Wrth ymweld â mater addysg drochi, byddai'n fuddiol hefyd amlinellu beth yw'r arferion gorau o ran addysgu plant sy'n siaradwyr y Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r rhan helaethaf o'r rhain mewn dosbarthiadau yn y blynyddoedd cynnar lle mae proses o addysg drochi ar waith. Eto prin yw'r cyfarwyddyd sydd ar gael i athrawon ynghylch sut mae delio â'r sefyllfa ieithyddol hon. Gyda chyflwyno'r cwricwlwm newydd, gellid edrych ar hyn a chynnig canllaw ymarferol i athrawon ynghylch sut mae strwythuro dosbarthiadau cymysg yn ieithyddol fel hyn yn ystod y blynyddoedd cynnar.

**Argymhellir fod dogfen bolisi yn cael ei chyhoeddi gan y Llywodraeth sy'n nodi beth yw ei pholisïau o safbwynt addysg drochi gan nodi beth yw'r egwyddorion sylfaenol a beth yw'r arferion gorau.**

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

*66.* Wrth ail ymweld â diffinio categorïau ysgolion, dylid hefyd ystyried sut mae'r sector o ysgolion sy'n delio ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu categoreiddio. Ni chafodd y sector hon ei chynnwys yn y ddogfen *Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg(2007. )*Nodwyd yn adroddiad y *Bwrdd Cynghori ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).*

*Gwan iawn oedd ymdriniaeth y rhan fwyaf o'r CSGAau â'r maes hwn er bod y canllawiau a gyhoeddwyd yn gofyn i'r cynghorau ystyried sut y byddent yn cynyddu eu capasiti i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar adeg yr Adolygiad Brys, ac o ystyried eu harchwiliadau mwyaf diweddar, nifer fach iawn ohonynt a oedd wedi gwneud hynny.*

## Hyfforddi athrawon

67. Hyd yn hyn, ychydig iawn o sylw a roddwyd i gynllunio’r gweithlu addysg yn ei gyfanrwydd o gyfeiriad datblygu’r ddarpariaeth Gymraeg. Bydd y diffyg hwn yn cael ei danlinellu wrth i ragor o ysgolion ddarparu mwy yn y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf hyn. Yn y dyfodol bydd yn rhaid i’r Llywodraeth fod â darlun llawer cliriach o’r anghenion o safbwynt athrawon sy'n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan osod **targedau penodol ac uchelgeisiol** o ran recriwtio athrawon sy’n medru’r Gymraeg i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae hefyd angen i Lywodraeth Cymru gadw golwg ar y sefyllfa a phenderfynu pwy ddylai gasglu data am y sector cyfrwng Cymraeg a bod y data hwnnw’n gyfredol ac y gellir ei ddefnyddio fel offeryn cynllunio pwrpasol. **Heb y gweithlu addysg perthnasol ni ellir symud ymlaen.**

68. Nodwyd mewn adroddiad ar newydd ddyfodiaid i gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 30ain o Fai 2019

‘*Bu gostyngiad bychan yn nifer y myfyrwyr sy’n gallu addysgu yn y Gymraeg, sydd ar ei isaf ers 2007/08.’*

Gallai hyn achosi anawsterau sylfaenol i ddatblygiad addysg Gymraeg a dwyieithog yn y dyfodol.

**Argymhellir fod yn rhaid cael strategaeth gynhwysfawr a blaengar yn ei lle ar gyfer hyfforddi athrawon yn ei holl agweddau os yw’r broses o ail ddiffinio ysgolion yng Nghymru yn mynd i fod yn llwyddiannus.**

## Arholiadau cyfrwng Cymraeg

69. Wrth ystyried y diffiniadau ar gyfer y sector uwchradd, un mater a fydd angen sylw yw’r dryswch o ran data pan fo disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau mewn ysgolion dwyieithog . Yn gyntaf byddai’n dda gwybod faint yn union o ddisgyblion sy’n sefyll eu harholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ateb y papurau Cymraeg, fel bod gwaelodlin gwrthrychol a phendant ar gael at ddibenion cynllunio a mesur cynnydd. Ac yn ail byddai’n dda gwybod pa reolau sydd ar waith gan CBAC a chyrff dyfarnu eraill wrth gofnodi iaith cofrestriadau a’r iaith yr atebwyd y papurau arholi ynddi ar gyfer arholiadau unigol.

## Dilyniant ieithyddol

70. Un o’r sialensau sy’n wynebu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yw sicrhau bod digon o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i fod yn rhugl ddwyieithog y mae addysg Gymraeg yn ei gynnig iddynt a’u bod yn parhau i ddilyn meysydd dysgu a phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed. Heb y cysondeb hwn o ddilyniant

mae perygl fod disgyblion, yn enwedig o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg, yn colli eu hyder a'u sgiliau ieithyddol cyn ac wedi iddynt adael addysg statudol. Un o fwriadau'r diffiniadau hyn felly yw annog cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ond hefyd i fynd i'r afael â'r ail her sydd *yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* sef cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg o 10% dros y ddegawd nesaf.

**Argymhellir nad oes lle i ysgolion, wrth annog symud ar y continwwm ieithyddol, fynd ati i ddarparu llai o Gymraeg ac felly yn hytrach na datblygu ar hyd y continwwm, eu bod yn rhoi llai o bwyslais ar ddysgu'r Gymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir bod hyn yn cael ei nodi'n glir yn y rheoliadau fydd yn cyd-fynd gyda'r diffiniadau hyn.**

## Darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiad neu rieni sydd am ail gyfle i ddewis Addysg Gymraeg

71. Er nad yw hwn yn fater sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chategoreiddio Addysg Gymraeg mae'n nodwedd o 'r gyfundrefn addysg yng Nghymru. Ers canol yr 1980au gwelwyd twf yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i Gymru. Dechreuodd y ddarpariaeth arloesol a hynod lwyddiannus hon yng Ngwynedd gan ledu wedyn i'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle'r oedd canran arwyddocaol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn ddiweddar iawn datblygodd y ddarpariaeth i gynnwys ardaloedd eraill yng Nghymru lle'r oedd galw gan rieni am gyfleoedd pellach i gael mynediad i addysg Gymraeg a hynny ar ôl yr oedran arferol o gychwyn ysgol. Am resymau'n ymwneud yn bennaf â chyllid a threfniadaeth cyllid, nid yw'r ddarpariaeth hon bellach mor rymus ag y bu. Mae hynny'n drueni gan fod Cymru wedi arloesi yn y maes hwn ar lefel byd eang gan ddangos sut y gall plant ddysgu iaith yn sydyn iawn dros gyfnod byr o ddefnyddio'r technegau dysgu cywir.

**Argymhellir felly y dylid ystyried sut mae'r ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid, neu rieni sydd am ail gyfle i ddewis Addysg Gymraeg, yn rhan o'r gyfundrefn addysg fel bod y ddarpariaeth hon ar gael yn gyson ledled Cymru.**

## Casglu Data PLASC

72. O dderbyn argymhellion yr adroddiad hwn o ran diffiniadau newydd, bydd yn rhaid ystyried sut byddir yn casglu data PLASC yn seiliedig ar y diffiniadau hyn. Gan fod yr adroddiad yn argymell y gellid categoreiddio ffrwd neu ddosbarth o fewn ysgol gynradd yn ogystal ag ysgol gyfan, bydd yn rhaid ystyried yn ofalus sut y byddid yn casglu data sy'n gallu cofnodi'r amrywiadau a fedrai ddeillio o'r patrymau newydd hyn o ddiffinio'r ddarpariaeth addysgol.

## Ysgolion 3-19 oed

73. Gyda ‘r cynnydd yn nifer yr ysgolion 3-19 oed, argymhellir na ddylid creu categori penodol ar gyfer yr ysgolion hynny. Yn hytrach, dylid cyfeirio atynt yn ôl y categorïau a argymhellir. Felly bydd ysgol 3-19 oed yn gallu cael ei chategoreiddio fel ysgol Categori 3 yn y cynradd a Chategori 2 yn yr uwchradd.